



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Adroddiad Safonau Comisiynydd y Gymraeg – Adran 64 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

Cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref
sirol yng Nghymru

[Cyf: 20140530ASCSCBS - 1]

Cynnwys

1. Cefndir a chyd-destun	1
2. Ymchwiliad safonau mewn perthynas â chynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol yng Nghymru	2
3. Rhesymoldeb a chymesuredd	3
4. Tystiolaeth a dderbyniwyd gan gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol yng Nghymru	5
5. Tystiolaeth a dderbyniwyd gan aelodau'r cyhoedd	27
6. Tystiolaeth a dderbyniwyd gan Banel Cynghori Comisiynydd y Gymraeg	35
7. Casgliadau'r Ymchwiliad Safonau	37
8. Y camau nesaf	54
Atodiad A – Rhestr o'r ymatebwyr i'r ymchwiliad safonau	55

1. Cefndir a chyd-destun

Prif nod Comisiynydd y Gymraeg, sefydliad annibynnol a grëwyd gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, yw hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Gwneir hyn drwy ddwyn sylw at y ffaith bod statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru a thrwy osod safonau ar sefydliadau. Bydd hyn, yn ei dro, yn arwain at hawliau i siaradwyr Cymraeg.

Bydd dwy egwyddor yn sail i waith y Comisiynydd:

- o ni ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru
- o dylai personau yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

Ar 6 Ionawr 2014 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddogfen 'Safonau arfaethedig mewn perthynas â'r Gymraeg'.¹ Mae'r safonau arfaethedig hyn wedi cael eu datblygu i osod dyletswyddau ar gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol yng Nghymru, awdurdodau parciau cenedlaethol a Gweinidogion Cymru.

Wrth gyflwyno'r ddogfen, nodwyd yr isod gan Lywodraeth Cymru:

Mae'r safonau wedi'u drafftio gan gadw mewn cof yr egwyddorion o fod yn rhesymol ac yn gymesur. Yn achos rhai gwasanaethau, rydym wedi datblygu detholiad o safonau sy'n gofyn am wahanol lefelau o ddarpariaeth.²

Bu'r ddogfen hon yn sail ar gyfer ymchwiliadau safonau Comisiynydd y Gymraeg ac ymarferiad Llywodraeth Cymru i gasglu tystiolaeth er mwyn llunio Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

2. Ymchwiliad safonau mewn perthynas â chynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol yng Nghymru

Yn unol ag adran 62, Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, cyflwynwyd hysbysiad rhagymchwilio ar 6 Ionawr 2014 at sylw'r holl gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol yng Nghymru. Hysbysiad ysgrifenedig sy'n datgan bwriad Comisiynydd y Gymraeg i gynnal ymchwiliad safonau, ac sy'n pennu pwnc yr ymchwiliad safonau, yw hysbysiad rhagymchwilio. Ni chaiff y Comisiynydd gynnal ymchwiliad safonau oni bai iddo roi hysbysiad rhagymchwilio i bob person perthnasol (sefydliad) o leiaf 14 diwrnod cyn dechrau ar yr ymchwiliad.

Pwnc yr ymchwiliad safonau hwn oedd dyfarnu ar ba safonau (os o gwbl) a ddylai fod yn benodol gymwys i bob un o'r cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol yng Nghymru (p'un a yw'r safonau eisoes wedi eu pennu gan Weinidogion Cymru o dan adran 26(1) ai peidio).

Cychwynnodd cyfnod yr ymchwiliad safonau hwn ar 27 Ionawr 2014. Daeth i ben ar 18 Ebrill 2014.

Yn rhan o'r ymchwiliad safonau hwn, casglwyd gwybodaeth gan bob un o'r cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol yng Nghymru. Gwnaethpwyd hynny trwy dderbyn holiadur wedi ei lenwi ganddynt. Yn gyfochrog â'r broses o gasglu tystiolaeth gan bob person perthnasol, casglwyd tystiolaeth gan y Panel Cynghori a'r cyhoedd.

Gosodwyd holiadur i'r cyhoedd ar wefan Comisiynydd y Gymraeg. Pwrpas yr holiadur hwn oedd rhoi cyfle i aelodau'r cyhoedd nodi beth roeddent yn teimlo sy'n rhesymol i'r sefydliadau ei wneud a'i ddarparu yn Gymraeg, a hynny gan ystyried y gofynion ynghlwm wrth y safonau arfaethedig a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar 6 Ionawr 2014. Gosodwyd hysbysiadau yn y wasg genedlaethol yn ystod cyfnod yr ymchwiliad safonau yn tynnu sylw'r cyhoedd at yr holiadur hwn. Yn ogystal â hynny, lansiodd fideo er mwyn rhoi cyflwyniad i'r broses, ac i ddangos i'r cyhoedd sut y gallant ymateb i ymchwiliadau safonau.

3. Rhesymoldeb a chymesuredd

Yn unol ag adran 63 (1) Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, rhaid i'r Comisiynydd roi sylw i'r angen am sicrhau nad yw gofynion am i bersonau gydymffurfio â safonau yn rhinwedd adran 25 (1) yn afresymol neu'n anghymesur.

Wrth gynnal ymchwiliad safonau, rhaid i'r Comisiynydd ystyried:

(a) o ran pob gweithgaredd a bennir yn Atodlen 9 y mae person yn ei wneud, a yw'n rhesymol ac yn gymesur i safonau cyflenwi gwasanaethau fod yn benodol gymwys i berson ai peidio, a

(b) o ran pob gweithgaredd o'r fath, os yw'n rhesymol ac yn gymesur i safonau cyflenwi gwasanaethau fod yn benodol gymwys i berson, ddod i'r casgliad y dylai safonau cyflenwi gwasanaethau fod yn benodol gymwys i berson mewn perthynas â'r gweithgaredd hwnnw.

Wrth ystyried y cwestiwn o resymoldeb a chymesuredd, dylid nodi bod y Mesur yn rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i sicrhau bod rheoliadau yn darparu bod safonau cyflenwi gwasanaethau sy'n ymwneud â phob un o'r gweithgareddau yn Atodlen 9 a wneir gan y person (ac i'r graddau y mae'n eu gwneud) yn benodol gymwys i'r person hwnnw.

Ond nid oes rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau bod rheoliadau yn sicrhau bod safonau cyflenwi gwasanaethau yn benodol gymwys i berson mewn perthynas â gweithgaredd a bennir yn Atodlen 9 os yw, neu i'r graddau y mae:

(a) adroddiad safonau o dan adran 64 yn nodi y byddai'n afresymol neu'n anghymesur i safonau cyflenwi gwasanaethau fod yn benodol gymwys i berson mewn perthynas â'r gweithgaredd hwnnw, neu

(b) Gweinidogion Cymru o'r farn y byddai'n afresymol neu'n anghymesur i safonau cyflenwi gwasanaethau fod yn benodol gymwys i berson mewn perthynas â'r gweithgaredd hwnnw.

Nid yw hynny'n atal rheoliadau rhag darparu bod safonau cyflenwi gwasanaethau eraill yn benodol gymwys i berson.

Drwy wneud rheoliadau dan y Mesur hwn yn arferadwy drwy offeryn statudol, awdurdodir Comisiynydd y Gymraeg i roi hysbysiad cydymffurfio i berson.

Hysbysiad cydymffurfio yw hysbysiad a roddir i berson gan y Comisiynydd:

(a) sy'n nodi, neu'n cyfeirio at, un neu ragor o safonau a bennir gan Weinidogion Cymru o dan adran 26(1), a

(b) sy'n ei gwneud yn ofynnol i berson gydymffurfio â'r safon neu â'r safonau a nodir neu y cyfeirir ati neu atynt.

Bydd Comisiynydd y Gymraeg yn ystyried y dystiolaeth a ddarparwyd wrth ddod i benderfyniad ar gynnwys hysbysiad cydymffurfio a roddir i berson.

Nid yw'r ffaith bod safon yn benodol gymwys i berson yn golygu bod dyletswydd arno i gydymffurfio â'r safon honno. Dim ond os bydd y Comisiynydd yn rhoi hysbysiad cydymffurfio iddo, a bod yr hysbysiad hwnnw'n ei gwneud hi'n ofynnol i gydymffurfio â safon, y bydd y ddyletswydd honno mewn grym.

Cyn rhoi hysbysiad cydymffurfio i berson, bydd Comisiynydd y Gymraeg yn ymgynghori â'r person. Nid yw methiant y person i gymryd rhan mewn ymgynghoriad yn atal y Comisiynydd rhag rhoi hysbysiad cydymffurfio i'r person hwnnw.

Wedi i Gomisiynydd y Gymraeg roi hysbysiad cydymffurfio i berson, caiff y person hwnnw wneud cais i'r Comisiynydd yn gofyn iddo ddyfarnu a yw'r gofyniad i gydymffurfio â'r safon honno, neu gydymffurfio â'r safon yn y modd hwnnw, yn afresymol neu'n anghymesur ai peidio. Pe bai'r Comisiynydd yn hysbysu person nad yw'r gofyniad i gydymffurfio â safon yn afresymol neu'n anghymesur, rhoddir hawl yn y Mesur iddynt apelio i'r Tribiwnlys er mwyn dod i ddyfarniad.

Meini Prawf Comisiynydd y Gymraeg

Wrth ddod i farn ar bwnc yr ymchwiliad safonau hwn, yn unol â'r gofynion yr amlinellir yn Rhan 4, Pennod 8 y Mesur, ystyriwyd y meini prawf canlynol ochr yn ochr â'r dystiolaeth a dderbyniwyd yn rhan o'r ymchwiliad safonau:

- A yw'r sefydliad yn agored i orfod cydymffurfio â safonau – a yw'r sefydliad yn dod o fewn Atodlen 5 a hefyd o fewn Atodlen 6, neu yn dod o fewn Atodlen 7 a hefyd o fewn Atodlen 8?
- A yw'r dosbarth o safon (cyflenwi gwasanaethau; llunio polisi; gweithredu; cadw cofnodion; hybu) yn gymwysadwy i'r sefydliad?
- A yw'r sefydliad yn gwneud y gweithgaredd³ dan sylw?
- A yw'r sefydliad eisoes wedi ymrwymo i ddarparu'r gweithgaredd, neu'r weithred dan sylw, yn rhannol neu'n llawn, drwy ei gynllun iaith statudol neu bolisi iaith Gymraeg?
- A yw'r sefydliad eisoes yn darparu'r gwasanaeth yn Gymraeg (boed hynny'n cyfateb i'r union ofynion ynghlwm wrth y safon ai peidio), neu'n gwneud y gweithgaredd yn unol â'r safon?
- A yw mwyafrif helaeth y sefydliadau eraill o fewn yr un sector yn darparu'r gwasanaeth yn Gymraeg, neu'n gwneud y gweithgaredd?
- A oes unrhyw resymau eraill yn erbyn, neu o blaid gwneud y safon yn benodol gymwys i'r sefydliad?

4. Tystiolaeth a dderbyniwyd gan gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol yng Nghymru

Derbyniwyd tystiolaeth gan bob un o'r cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol yng Nghymru. Roedd y dystiolaeth yma'n cynnwys 136 o gwestiynau mewn holiadur, yn ogystal â thystiolaeth bellach oedd yn cynnwys cyhoeddiadau, polisïau a deunyddiau a gynhyrchir yn ddwyieithog gan y sefydliadau eisoes.

Darllenwyd pob ymateb yn unigol a defnyddiwyd meddalwedd hefyd i gofnodi a dadansoddi'r testun ac i adnabod themâu cyffredinol. Cynhaliwyd cyfarfodydd rheolaidd ymhlith swyddogion Comisiynydd y Gymraeg er mwyn dadansoddi'r dystiolaeth a dderbyniwyd gan sefydliadau yn rhan o'r ymchwiliad safonau, ynghyd ag ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg y sefydliadau dan sylw.

Darperir yn yr adran hon ganran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y sefydliadau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau ar gyfer pob gweithgaredd.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yn erbyn y safonau, dylid nodi nad oedd modd paru nifer o'r safonau mewn perthynas â gweithgareddau cyflenwi gwasanaethau, a hynny oherwydd natur fanwl y safonau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru. Mewn rhai amgylchiadau, mae'n bosibl bod cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol yng Nghymru yn ymrwymo neu'n cydymffurfio â'r gofyniad, ond nid yw hwnnw wedi ei ddatgan yn benodol yn eu cynlluniau iaith Gymraeg. Er cysondeb, ni chofnodwyd y safonau hynny'n ymrwymadau cyfatebol wrth ddadansoddi.

Rhoddir crynodeb o'r dystiolaeth a dderbyniwyd gan bob sefydliad. Roedd y dystiolaeth a gyflwynwyd yn cynnwys gwybodaeth ynghylch pa weithgareddau a wneir gan y sefydliadau dan sylw, pa weithgareddau maent yn gwneud trwy'r Gymraeg a'r graddau y maent yn gallu cydymffurfio â'r safonau.

Safonau cyflenwi gwasanaethau

Gweithgaredd 1: Gohebiaeth

Safonau ar gyfer gohebiaeth [1–8]

Nododd 22 o'r 22 sefydliad (100%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd 22 sefydliad (100%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl sefydliadau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 83% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau mewn perthynas â gohebiaeth.⁴

Nododd Cyngor Sir Penfro fod angen eglurhad pellach ynglŷn ag union ystyr y safonau arfaethedig [4 a 5] ar gyfer gohebiaeth.

Yn yr un modd, mynegwyd pryder gan 3 sefydliad (13%), sef Cyngor Sir Penfro, Cyngor Bro Morgannwg, a Chyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot ynglŷn â'u gallu i gydymffurfio pe bai rhaid i bob gohebiaeth gan yr awdurdod fod yn ddwyieithog. Roedd y rhesymau dros hynny yn cynnwys goblygiadau yn nhermau cost ariannol, dilyn amserlenni a sicrhau cydymffurfiaeth barhaus. Nododd Cyngor Sir Ynys Môn y byddai sicrhau cysondeb ar draws y Cyngor wrth ymdrin ag unigolion yn dasg heriol gan nad oes gan y Cyngor systemau corfforaethol mewn lle ar gyfer cofnodi dewis iaith. Er hynny, fe nododd Cyngor Sir Ynys Môn nad oeddynt yn rhagweld unrhyw anhawster i gyflawni safon 8 ond y byddai goblygiadau ariannol ynghlwm â hynny wrth gynhyrchu deunyddiau gweledol. Ategwyd hynny gan Gyngor Sir Penfro a nododd y byddai'n rhaid iddynt ddatblygu mecanweithiau i godi ymwybyddiaeth ac i sicrhau cydymffurfiaeth, felly byddai angen amser rhesymol a chymesur i roi'r safonau arfaethedig hyn ar waith.

Mynegwyd pryder gan Gyngor Dinas a Sir Abertawe a Chyngor Sir Penfro ynghylch ymarferoldeb cydymffurfio â rhai safonau, gan gyfeirio at y ddyletswydd a roddir ar sefydliad yn safonau 84 a 85 (safonau sy'n ymwneud â chronfeydd data). Nodwyd gan 12 o'r 22 sefydliad (55%) nad oedd un system TG integredig mewn bodolaeth, a bod gwybodaeth o'r fath yn cael ei chynnal fesul adran. Nodwyd y byddai angen buddsoddiad sylweddol mewn amser ac adnoddau er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r gofyniad hwn. Wrth bennu safonau o dan adran 26, dylai Gweinidogion Cymru sicrhau bod y rheoliadau yn amlinellu'r gofyniad yn glir.

Nododd Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a Chyngor Dinas a Sir Abertawe nad oedd eu cynllun iaith Gymraeg cyfredol yn cynnwys cyfeiriad at y safonau sy'n ymwneud ag arwyddo fersiynau Cymraeg a Saesneg o ohebiaeth a negeseuon e-bost. Er hynny, nododd 16 o'r 22 sefydliad (73%) eu bod yn fodlon na fyddai gwneud y safonau dan sylw'n benodol gymwys yn afresymol na'n anghymesur. Nododd 3 o'r 22 sefydliad (14%) eu bod yn ystyried y byddai gwneud detholiad o'r safonau arfaethedig sy'n ymwneud â'r gweithgaredd hwn yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur.

Gweithgaredd 2: Galwadau ffôn Safonau ar gyfer galwadau ffôn [9–18]

Nododd 22 o'r 22 sefydliad (100%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd 21 sefydliad (95%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw yn

Gymraeg. Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn unig a nododd nad oedd yn gwneud y gweithgaredd yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymïadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl sefydliadau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 84% o'r ymrwymïadau'n cyfateb i'r safonau mewn perthynas â galwadau ffôn.⁵

Yn ymarferol fodd bynnag, mae'n debygol na fyddai'r sefydliadau'n gallu delio â galwadau ffôn yn y Gymraeg a Saesneg fel ei gilydd ar hyn o bryd. Mynegwyd pryder gan rai sefydliadau ynghylch eu gallu i gydymffurfio â rhai o'r safonau ar gyfer galwadau ffôn. Nododd Cyngor Bro Morgannwg y byddai'n anodd gwarantu siaradwr Cymraeg i ddelio â phob galwad lle'r oedd y galwr wedi gofyn ymlaen llaw am gynnal y sgwrs yn Gymraeg, gan y byddai hynny'n galw am gryn adnoddau ac yn arbennig o anodd mewn rhai achosion e.e. pe bai'r mater yn un technegol ei natur. Nododd eraill eu bod yn ymwybodol o anawsterau sy'n bodoli er mwyn cydymffurfio â'r safonau e.e. diffyg adnoddau, problemau llwyth gwaith o ran cyfieithu a'r cyfnod o rewi swyddi presennol. Er hynny, cadarnhawyd bod protocol ganddynt ar waith er mwyn mynd i'r afael â galwadau Cymraeg, boed hynny drwy'r switsfwrdd neu'n uniongyrchol i aelodau staff.

Mynegwyd pryder gan 7 o'r 22 sefydliad (32%), sef Cyngor Bro Morgannwg, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen, Cyngor Dinas a Sir Abertawe, Cyngor Dinas Casnewydd a Chyngor Sir y Fflint, nad oeddent ar hyn o bryd mewn sefyllfa i ddarparu'r gwasanaeth ar bob adeg oherwydd lefel y sgiliau iaith Gymraeg sydd gan staff o fewn yr adrannau perthnasol.

Cadarnhaodd Cyngor Sir Penfro nad oedd eu canolfan gyswllt yn hwyluso 'switsfwrdd' ar hyn o bryd, a bod ganddynt systemau amgen sy'n galluogi defnyddwyr i gysylltu â'r gwasanaeth perthnasol e.e. gwasanaeth cyfrwng Cymraeg. Yn yr un modd, nododd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam nad oedd y prif switsfwrdd yn darparu gwasanaeth ateb y tu allan i oriau swyddfa ac nad oedd modd i gwsmeriaid adael negeseuon. Yn hytrach, cadarnhawyd bod neges y peiriant ateb yn rhoi dewis i gwsmeriaid naill ai i droi at wefan y Cyngor gyda'u hymholiad neu i wneud galwad arall yn ystod oriau swyddfa.

Nododd 6 o'r 22 sefydliad (27%), sef Cyngor Bro Morgannwg, Cyngor Dinas Casnewydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam a Chyngor Sir Penfro, nad oedd detholiad o'r safonau ar gyfer galwadau ffôn yn eu lle ganddynt ar hyn o bryd. Er hynny, nododd 13 o'r 22 sefydliad (59%) eu bod yn fodlon na fyddai gwneud y safonau dan sylw'n benodol gymwys yn afresymol na'n anghymesur. Nododd 3 o'r 22 sefydliad (14%) y byddai gwneud detholiad o'r safonau arfaethedig sy'n ymwneud â'r gweithgaredd hwn yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur, ac y gellid cydymffurfio â hwy pe bai ychydig o adnoddau yn cael eu neilltuo ar eu cyfer.

Gweithgaredd 3: Llinellau cymorth a chanolfannau galwadau

Safonau ar gyfer llinellau cymorth a chanolfannau galwadau [19–25]

Nododd 22 o'r 22 sefydliad (100%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd 21 sefydliad (95%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw yn Gymraeg. Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn unig a nododd nad oedd yn gwneud y gweithgaredd yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymïadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl sefydliadau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 51% o'r ymrwymïadau'n cyfateb i'r safonau mewn perthynas â llinellau cymorth a chanolfannau galwadau.⁶ Dylid nodi ei bod yn bosibl y byddai llinellau cymorth a chanolfannau galwadau yn disgyn o dan drefniadau galwadau ffôn cyffredinol mewn rhai cynlluniau iaith Gymraeg.

Gan ystyried y sefyllfa gyfredol, nododd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a Chyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful y gallai cydymffurfio â detholiad o'r safonau fod yn heriol yn y tymor byr ac y byddai angen amser ac adnoddau ychwanegol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth. Adnabuwyd yr angen i rai sefydliadau uwch sgilio eu gweithluoedd, cynnig hyfforddiant ynghyd â chynnal proses recriwtio ar gyfer nifer o'u canolfannau galwadau.

Yn yr un modd, nododd Cyngor Sir Penfro y byddai cynnig gwasanaeth Cymraeg ar benwythnosau yn heriol, oherwydd y niferoedd o staff sy'n gweithio ar ddydd Sadwrn, a'r trefniadau rota ar gyfer y cyfnodau hynny. Ar sail hynny, nodwyd y byddai gwneud rhai safonau mewn perthynas â'r gweithgaredd yn benodol gymwys iddynt yn afresymol neu'n anghymesur.

Nododd Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Sir Fynwy a Chyngor Sir Penfro nad oeddent yn gweithredu system awtomeiddio ar hyn o bryd.

Wrth ymateb i gwestiwn yn ymwneud â safon 21, nododd Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen, Cyngor Sir Fynwy a Chyngor Sir y Fflint y byddai'n afresymol i wneud y safon hon yn benodol gymwys oherwydd proffil ieithyddol yr ardal. Yn yr un modd, mynegwyd pryder gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent ynghylch ymarferoldeb gweithredu'r safon hon, gan gwestiynu pam y byddai angen i bobl glywed neges am oriau agor y llinell gymorth wrth gysylltu â'r sefydliad, pan fo'r gwasanaeth hwnnw ar agor yn Gymraeg a'r Saesneg.

Gweithgaredd 4: Cyfarfodydd personol

Safonau ar gyfer cyfarfodydd personol [26–29]

Nododd 22 o'r 22 (100%) sefydliad eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd 19 (86%) sefydliad eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw yn

Gymraeg. Nododd Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a Chyngor Bro Morgannwg nad oeddent yn gwneud y gweithgaredd yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymïadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl sefydliadau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 90% o'r ymrwymïadau'n cyfateb i'r safonau mewn perthynas â chyfarfodydd personol.⁷

Cododd 3 sefydliad (14%), sef Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili gwestiynau ynghylch ymarferoldeb gweithredu safon 28 a 29 sy'n ymwneud â chyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg, ac eithrio mewn sefyllfaoedd eithriadol pan na fo aelod o'r cyhoedd yn deall Saesneg, megis mewn cyfarfod â phlentyn ifanc neu ddiodefwr dementia.

Gweithgaredd 5: Cyfarfodydd cyhoeddus Safonau ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus [30–38]

Nododd 22 o'r 22 sefydliad (100%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd 18 o'r 22 (82%) sefydliad eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw yn Gymraeg. Nododd Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen, Cyngor Sir Penfro, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful a Chyngor Bro Morgannwg nad oeddent yn gwneud y gweithgaredd yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymïadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl sefydliadau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 84% o'r ymrwymïadau'n cyfateb i'r safonau mewn perthynas â chyfarfodydd cyhoeddus.⁸

Cadarnhaodd Cyngor Sir Gâr eu bod yn gofyn i fynychwyr wrth gofrestru ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus, pa ieithoedd y dymunant siarad. Nododd Cyngor Sir Fynwy fod hyn yn arfer presennol lle rhoddir hysbysiad o flaen llaw iddynt, gyda Chyngor Dinas a Sir Abertawe yn nodi bod darpariaeth gyfatebol yn rhan o'u cynllun iaith Gymraeg cyfredol.

Nododd Cyngor Bro Morgannwg y byddai'r gost o ddarparu cyfieithu i'r Gymraeg ym mhob cyfarfod cyhoeddus yn golygu na fyddai modd iddynt gynnal cynifer o gyfarfodydd ac felly byddai gwneud y safonau yn benodol gymwys iddynt yn afresymol ac yn anghymesur. Mynegwyd pryder gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ynghylch ei allu i gydymffurfio â rhai o'r gofynion gan nad oedd yn arfer presennol ar hyn o bryd.

⁷ Canran cyfartalog yr ymrwymïadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y sefydliadau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau ar gyfer pob gweithgaredd.

⁸ Canran cyfartalog yr ymrwymïadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y sefydliadau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau ar gyfer pob gweithgaredd.

Gweithgaredd 6: Cyhoeddusrwydd a hysbysebu Safonau ar gyfer cyhoeddusrwydd a hysbysebu [41]

Nododd 22 o'r 22 sefydliad (100%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd 22 sefydliad (100%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl sefydliadau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 95% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau mewn perthynas â chyhoeddusrwydd a hysbysebu.⁹

Cadarnhaodd 21 o'r 22 sefydliad (95%) eu bod o'r farn y byddai'n rhesymol a chymesur iddynt gydymffurfio â'r safon. Nododd 1 o'r 22 sefydliad, sef Cyngor Sir Penfro, nad oeddent o'r farn y gellid sicrhau cydymffurfiaeth lawn â'r safon oherwydd y costau ychwanegol a ragwelir yng nghyswllt hysbysebu. Cadarnhawyd fod ei bolisi cyfredol yn nodi ei fod yn hysbysebu yn iaith y cyfrwng y gosodwyd yr hysbyseb ynddo.

Mynegodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot y byddai'n her iddynt gydymffurfio â'r gofynion o ran cyfryngau cymdeithasol oherwydd natur uniongyrchol y gwasanaeth.

Gweithgaredd 7: Arddangosfeydd cyhoeddus Safonau ar gyfer arddangosfeydd cyhoeddus [42]

Nododd 22 o'r 22 sefydliad (100%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd 21 sefydliad (95%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw yn Gymraeg. Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn unig a nododd nad oedd yn gwneud y gweithgaredd yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl sefydliadau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau mewn perthynas ag arddangosfeydd cyhoeddus.¹⁰ Ategwyd y dystiolaeth hon gan y 21 o sefydliadau (95%) a gadarnhaodd eu bod o'r farn y byddai'n rhesymol a chymesur iddynt gydymffurfio â'r safon. Cadarnhaodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn ei ymateb ei fod yn arfer cyfredol ond nid gan bob ardal wasanaeth o fewn yr awdurdod.

Nododd 1 sefydliad (Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot) ei fod yn sicrhau bod teitlau, enwau a phenawdau arddangosiadau ac arddangosfeydd yn ddwyieithog gan geisio sicrhau cydraddoldeb rhwng y Gymraeg a'r Saesneg mewn deunyddiau arddangos eraill. Er hynny, nodwyd ganddynt y byddai costau darparu deunyddiau arddangosiadau ac arddangosfeydd dwyieithog yn afresymol.

⁹ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y sefydliadau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau ar gyfer pob gweithgaredd.

¹⁰ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y sefydliadau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau ar gyfer pob gweithgaredd.

Gweithgaredd 8: Cyhoeddiadau

Safonau ar gyfer cyhoeddiadau [43–45]

Nododd 22 o'r 22 sefydliad (100%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd 21 sefydliad (95%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw yn Gymraeg. Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn unig a nododd nad oedd yn gwneud y gweithgaredd yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymïadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl sefydliadau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 91% o'r ymrwymïadau'n cyfateb i'r safonau mewn perthynas â chyhoeddiadau.¹¹

Ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiad cryf i'r gofynion sydd ynghlwm wrth y safonau. Er hynny, dylid nodi bod 20 o'r 22 sefydliad (91%) wedi cadarnhau nad oeddent yn darparu pob un o'r cyhoeddiadau a restrir yn safon 43. Tynnwyd sylw penodol at yr her o gynhyrchu papurau'r cabinet, agendâu a chofnodion yn ddwyieithog, â rhai yn nodi y gwneir hynny ar gais yn unig ar hyn o bryd.

Nododd 3 sefydliad, sef Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful a Chyngor Dinas a Sir Casnewydd, eu bod wedi osgoi defnyddio meini prawf o'r math a gyflwynir yn safon 44 gan fod asesu dogfennau unigol yn cymryd cryn dipyn o amser ac adnoddau staff. Ategwyd at hynny gan y cynghorau dan sylw drwy nodi y byddai angen fframwaith clir er mwyn sicrhau ymdriniaeth gyson wrth asesu'r angen am fersiwn Gymraeg o gyhoeddiad. Byddai sicrhau hynny, yn nhyb y sefydliadau uchod, yn lleihau'r posibilrwydd o heriau yn y dyfodol.

Gweithgaredd 9: Ffurflenni

Safonau ar gyfer ffurflenni [46–49]

Nododd 22 o'r 22 sefydliad (100%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd 22 sefydliad (100%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymïadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl sefydliadau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 78% o'r ymrwymïadau'n cyfateb i'r safonau mewn perthynas â ffurflenni.¹²

Derbyniwyd ymateb cadarnhaol i'r safonau ar gyfer ffurflenni, gyda 22 o'r 22 sefydliad (100%) yn cadarnhau bod y gofynion eisoes yn arfer cyfredol, a'u bod yn rhesymol a chymesur mewn egwyddor. Er hynny, darparwyd rhai sylwadau ychwanegol gan Gyngor Dinas a Sir Casnewydd a Chyngor Sir Penfro. Nododd Cyngor Sir Penfro ei fod yn ansicr o'i allu i sicrhau bod pob ffurflen ar gael yn ddwyieithog gan ystyried graddfa'r sefydliad, gyda Chyngor Dinas Casnewydd yn nodi y gellir cydymffurfio â'r safonau lle

¹¹ Canran cyfartalog yr ymrwymïadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y sefydliadau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau ar gyfer pob gweithgaredd.

¹² Canran cyfartalog yr ymrwymïadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y sefydliadau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau ar gyfer pob gweithgaredd.

caniateir hynny gan y feddalwedd a ddefnyddir i gynhyrchu ffurflenni. Rhoddwyd enghreifftiau o feddalwedd a ddarperir gan drydydd parti sy'n broblematic.

Gweithgaredd 10: Gwefannau a gwasanaethau ar-lein Safonau ar gyfer gwefannau a gwasanaethau ar-lein [50–52]

Nododd 22 o'r 22 sefydliad (100%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd 21 sefydliad (95%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw yn Gymraeg. Cyngor Dinas Casnewydd yn unig a nododd nad oedd yn gwneud y gweithgaredd yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl sefydliadau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 64% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau mewn perthynas â gwefannau a gwasanaethau ar-lein.¹³ Dylid nodi nad yw cynnwys cynlluniau iaith Gymraeg wedi ymdrin ag apiau fel rheol gan nad oedd y cyfrwng hwn yn amlwg nac yn gyffredin pan gytunwyd hwy.

Derbyniwyd ymateb cadarnhaol i'r safonau ar gyfer gwefannau a gwasanaethau ar-lein, gyda 22 o'r 22 sefydliad (100%) yn cadarnhau bod y gofynion eisoes yn arfer cyfredol, a'u bod yn rhesymol a chymesur mewn egwyddor.

Er hynny, cyflwynwyd sylwadau gan Gyngor Sir Penfro a Chyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen oedd yn mynegi ansicrwydd ynghylch eu gallu i gydymffurfio â'r gofynion gyda phob gwefan a reolir ac a ddarperir ganddynt. Nododd Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen fod y safon ychydig yn aneglur o ran y gofynion yng nghyswllt safleoedd gwe micro, gyda Chyngor Sir Penfro yn nodi na fyddai'n bosibl sicrhau bod pob gwefan o'i eiddo yn cydymffurfio ar unwaith, o ganlyniad i gynulleidfa ddisgwyliedig rhai o'r gwefannau.

Mewn ymateb i safon 52, 1 sefydliad (Cyngor Sir Fynwy) a gadarnhaodd ei fod yn cynhyrchu apiau ar hyn o bryd, a hynny'n ddwyieithog. Er hynny, ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiad cryf i'r safon, gyda Chyngor Sir Ceredigion yn nodi y bydd yn sicrhau y caiff unrhyw apiau eu cynhyrchu'n ddwyieithog yn y dyfodol. Cadarnhaodd Cyngor Dinas a Sir Abertawe bod cynhyrchu apiau a deunyddiau ar-lein amgen yn cael eu hystyried gan y Cyngor ar hyn o bryd, â'r bwriad o lunio polisi yn y maes hwn. Nododd Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen y byddai'n rhaid iddo ystyried y gallu i gynhyrchu deunyddiau ar-lein oherwydd goblygiadau cost.

Gweithgaredd 11: Arwyddion

Safonau ar gyfer arwyddion [53–57]

Nododd 22 o'r 22 sefydliad (100%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd 22 sefydliad (100%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl sefydliadau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 83% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau mewn perthynas ag arwyddion.¹⁴

Derbyniwyd ymateb cadarnhaol i'r safonau ar gyfer arwyddion, gyda 22 o'r 22 sefydliad (100%) yn cadarnhau bod y gofynion eisoes yn arfer cyfredol, a'u bod yn rhesymol a chymesur mewn egwyddor.

Er hynny, bu gwrthwynebiad gan 12 o'r 22 sefydliad (55%) i safon 56, sy'n gosod gofynion ar sefydliadau i osod y testun Cymraeg ar arwyddion fel mai hwnnw sy'n cael ei ddarllen gyntaf.

Nododd y 12 sefydliad hynny y byddai'n afresymol ac anghymesur iddynt gydymffurfio â'r safon hon. Roedd y rhesymau a nodwyd yn cynnwys absenoldeb ymrwymiad tebyg yn eu cynlluniau iaith Gymraeg cyfredol, goblygiadau cost o orfod newid yr holl arwyddion, yn ogystal ag ystyried demograffeg yr ardaloedd y gwasanaethir ganddynt. Ymdrinnir â'r mater hwn yng nghasgliadau Comisiynydd y Gymraeg (Adran 7).

Gweithgaredd 12: Derbyn ymwelwyr

Safonau ar gyfer derbyn ymwelwyr [58–62]

Nododd 22 o'r 22 sefydliad (100%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd 19 sefydliad (86%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw yn Gymraeg. Nododd Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen, Cyngor Sir Penfro a Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf nad oeddent yn gwneud y gweithgaredd yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl sefydliadau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 70% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau mewn perthynas â derbyn ymwelwyr.¹⁵

Wrth ymateb i'r cwestiynau ynghylch safonau ar gyfer derbyn ymwelwyr, ni dderbyniwyd gwrthwynebiad i'r gofynion mewn egwyddor. Er hynny, ymddengys o'r dystiolaeth a dderbyniwyd bod gallu sefydliadau i dderbyn ymwelwyr yn y Gymraeg a Saesneg fel ei gilydd yn heriol. Nododd 7 o'r 22 sefydliad (32%) y byddai rhai o brif dderbynfeydd y sefydliad yn medru cydymffurfio'n llawn, gydag eraill yn cydymffurfio ar adegau penodol.

¹⁴ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y sefydliadau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau ar gyfer pob gweithgaredd.

¹⁵ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y sefydliadau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau ar gyfer pob gweithgaredd.

Nododd 3 o'r 22 sefydliad (14%), sef Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen, Cyngor Dinas Casnewydd a Chyngor Sir Penfro, na fyddai modd iddynt ddarparu gwasanaeth Cymraeg mewn prif dderbynfeydd ar bob achlysur. Roedd y rhesymau a nodwyd yn cynnwys niferoedd cyfyngedig o staff â sgiliau iaith Gymraeg, heriau o ran recriwtio a hyfforddi ynghyd â'r galw lleol am y gwasanaeth.

Gweithgaredd 13: Hysbysiadau swyddogol Safonau ar gyfer hysbysiadau swyddogol [63–65]

Nododd 22 o'r 22 sefydliad (100%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd 21 o'r 22 sefydliad (95%) eu bod yn ei wneud y gweithgaredd dan sylw yn Gymraeg. Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn unig a nododd nad oedd yn gwneud y gweithgaredd yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymïadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl sefydliadau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 70% o'r ymrwymïadau'n cyfateb i'r safonau mewn perthynas â hysbysiadau swyddogol.¹⁶

Derbyniwyd ymateb cadarnhaol i'r safonau ar gyfer hysbysiadau swyddogol, gyda 22 o'r 22 sefydliad (100%) yn cadarnhau bod y gofynion eisoes yn arfer cyfredol, a'u bod yn rhesymol a chymesur mewn egwyddor.

Er hynny, cafwyd gwrthwynebiad gan 7 o'r 22 sefydliad (32%), sef Cyngor Sir Bro Morgannwg, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen, Cyngor Dinas Casnewydd, Cyngor Sir Fynwy a Chyngor Sir Penfro, i safon 64, sy'n gosod gofynion ar sefydliadau i osod y testun Cymraeg ar hysbysiadau swyddogol fel mai hwnnw sy'n cael ei ddarllen gyntaf. Ymdrinnir â'r mater hwn yng nghasgliadau Comisiynydd y Gymraeg (Adran 7).

Nododd y sefydliadau hynny y byddai'n afresymol ac anghymesur iddynt gydymffurfio â'r safon hon. Roedd y rhesymau yn cynnwys diffyg ymrwymiad yn eu cynlluniau iaith Gymraeg cyfredol i wneud hynny ynghyd ag ystyriaethau demograffeg yr ardaloedd y gwasanaethir ganddynt.

Gweithgaredd 14: Dyfarnu grantiau Safonau ar gyfer dyfarnu grantiau [66–69]

Nododd 22 o'r 22 sefydliad (100%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd 18 sefydliad (82%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw yn Gymraeg. Nododd Cyngor Sir y Fflint, Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen, Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot a Chyngor Bro Morgannwg nad oeddent yn gwneud y gweithgaredd yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymïadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl sefydliadau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 74% o'r ymrwymïadau'n cyfateb i'r safonau mewn perthynas â dyfarnu grantiau.¹⁷

Derbyniwyd ymateb cadarnhaol i'r safonau ar gyfer dyfarnu grantiau, gyda 21 o'r 22 sefydliad (95%) yn cadarnhau bod y gofynion eisoes yn arfer cyfredol, a'u bod yn rhesymol a chymesur mewn egwyddor.

Nododd Cyngor Sir Penfro y byddant mewn egwyddor yn gallu cydymffurfio â'r safonau ar gyfer grantiau. Er hynny, mynegwyd y byddai cyflwyno dulliau i hwyluso, a sicrhau cydymffurfiaeth yn heriol i sefydliad o'r fath raddfa.

Gweithgaredd 15: Dyfarnu contractau Safonau ar gyfer dyfarnu contractau [70–73]

Nododd 22 o'r 22 sefydliad (100%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd 16 sefydliad (73%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw yn Gymraeg. Nododd Cyngor Sir Penfro, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot a Chyngor Bro Morgannwg nad oeddent yn gwneud y gweithgaredd yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymïadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl sefydliadau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 66% o'r ymrwymïadau'n cyfateb i'r safonau mewn perthynas â dyfarnu contractau.¹⁸

Derbyniwyd ymateb cadarnhaol i'r safonau ar gyfer dyfarnu grantiau, gyda 19 sefydliad (86%) yn cadarnhau bod y gofynion eisoes yn arfer cyfredol, a'u bod yn rhesymol a chymesur mewn egwyddor.

Derbyniwyd tystiolaeth gan 3 sefydliad (Cyngor Sir Bro Morgannwg, Cyngor Sir Penfro a Chyngor Sir y Fflint) oedd yn cadarnhau nad oeddent o'r farn y byddai'n rhesymol a chymesur iddynt orfod cydymffurfio â'r safonau.

Nododd 2 o'r sefydliadau hynny (Cyngor Sir y Fflint a Chyngor Sir Penfro) y byddai cyfieithu dogfennau Gwahoddiad i Dendro yn gallu golygu goblygiadau cytundebol mawr pe na fyddai'r cynnwys wedi'i gyfieithu'n gywir, gan arwain o bosibl at anghydfodau a heriau cyfreithiol gan gyflenwyr.

Cafwyd tystiolaeth o rai heriau y wynebier er mwyn cydymffurfio'n llawn â'r safonau, a oedd yn cynnwys anawsterau â'r wefan caffael genedlaethol a diffyg darpariaeth o ddogfennau tendro cyfreithiol gan y Tribiwnlys cyd-gontractau (Joint Contracts Tribunal).

Gweithgaredd 16: Codi ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau Cymraeg sydd ar gael Safonau ar gyfer codi ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau Cymraeg sydd ar gael [74–77]

Nododd 22 o'r 22 sefydliad (100%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd 20 sefydliad (91%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw yn Gymraeg. Nododd Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen a Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf nad oeddent yn gwneud y gweithgaredd mewn perthynas â'r Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl sefydliadau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 69% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau mewn perthynas â chodi ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau Cymraeg sydd ar gael.¹⁹

Derbyniwyd ymateb cadarnhaol i'r safonau ar gyfer codi ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau Cymraeg, gyda 19 sefydliad (86%) yn cadarnhau bod y gofynion eisoes yn arfer cyfredol, a'u bod yn rhesymol a chymesur mewn egwyddor.

Darparwyd sylwadau gan 4 sefydliad (Cyngor Sir Ynys Môn, Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent, Cyngor Sir Penfro a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy) ynghylch ymarferoldeb safonau 76 a 77. Nododd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy na fyddai staff y dderbynfa o reidrwydd yn gwybod pwy yw'r ymwelydd wrth iddo gerdded at y dderbynfa, nac ychwaith os yw'r person hwnnw wedi datgan yr hoffai gael ei gyfarch yn Gymraeg heb iddynt wybod pwy yw'r ymwelydd. Yn yr un modd, nodwyd gan Gyngor Dinas a Sir Abertawe y byddai gosod geiriad safonol ar bob un o'r pwyntiau bwled a restrir o bosibl yn achosi anhawster ymarferol (safon 76).

Derbyniwyd tystiolaeth gan 3 sefydliad (Cyngor Sir Bro Morgannwg, Cyngor Sir Penfro a Chyngor Sir y Fflint) oedd yn cadarnhau nad oeddent o'r farn y byddai'n rhesymol a chymesur iddynt orfod cydymffurfio â rhai/neu'r oll o safonau 74–77. Roedd y rhesymau a nodwyd yn cynnwys goblygiadau cost ac ystyriaeth i ddemograffeg yr ardaloedd y gwasanaethir ganddynt.

Dylid nodi bod adran 12 (2) (b) Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn nodi bod rhaid i gynlluniau iaith Gymraeg bennu ym mha ffyrdd y bydd sefydliad yn sicrhau cyhoeddusrwydd i'r cynllun. Pwysleisia'r Comisiynydd nad yw'r mesur hwn yn elfen ddewisol o fewn y ddeddfwriaeth.

Safonau cyflenwi gwasanaethau ychwanegol i'r rhai a restrir yn Atodlen 9

Gweithgaredd 17: Digwyddiadau cyhoeddus Safonau ar gyfer digwyddiadau cyhoeddus [39–40]

Nododd 22 o'r 22 sefydliad (100%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd 20 sefydliad (91%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw yn Gymraeg. Nododd Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen a Chyngor Bro Morgannwg nad oeddent yn gwneud y gweithgaredd yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymïadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl sefydliadau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 66% o'r ymrwymïadau'n cyfateb i'r safonau mewn perthynas â digwyddiadau cyhoeddus.²⁰

Derbyniwyd ymateb cadarnhaol yn gyffredinol i'r safonau ar gyfer digwyddiadau cyhoeddus, gyda'r holl sefydliadau yn cadarnhau bod y gofynion eisoes yn arfer cyfredol, eu bod yn rhesymol a chymesur mewn egwyddor neu y byddai modd cydymffurfio â hwy dros amser. Er hynny, nododd 6 sefydliad (Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, Cyngor Caerdydd, Cyngor Dinas Casnewydd a Chyngor Sir y Fflint) y byddai'n heriol iddynt allu sicrhau cyfartaledd wrth ddarparu gwasanaeth a chymorth i bersonau yn y digwyddiadau hynny, ynghyd â negeseuon sain mewn rhai achosion. Roedd y rhesymau a nodwyd gan y sefydliadau yn cynnwys diffyg siaradwyr Cymraeg ar hyn o bryd, demograffeg yr ardaloedd y gwasanaethir ganddynt ynghyd â diffyg adnoddau ar gyfer gweithredu rhaglen barhaus o godi ymwybyddiaeth a hyfforddi.

Gweithgaredd 18: Hunaniaeth gorfforaethol a brandio Safonau ar gyfer hunaniaeth gorfforaethol a brandio [78]

Nododd 22 o'r 22 sefydliad (100%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd 22 sefydliad (100%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymïadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl sefydliadau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 100% o'r ymrwymïadau'n cyfateb i'r safonau mewn perthynas â hunaniaeth gorfforaethol a brandio.²¹

Cadarnhaodd y 22 sefydliad eu bod o'r farn y byddai'n rhesymol a chymesur gwneud y safon hon yn benodol gymwys iddynt.

²⁰ Canran cyfartalog yr ymrwymïadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y sefydliadau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau ar gyfer pob gweithgaredd.

²¹ Canran cyfartalog yr ymrwymïadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y sefydliadau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau ar gyfer pob gweithgaredd.

Gweithgaredd 19: Cyrsiau Safonau ar gyfer cyrsiau [79–81]

Nododd 22 o'r 22 sefydliad (100%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd 11 sefydliad (50%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw yn Gymraeg. Nododd Cyngor Sir y Fflint, Cyngor Sir Penfro, Cyngor Sir Dinbych, Cyngor Dinas Casnewydd, Cyngor Dinas a Sir Abertawe, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent a Chyngor Bro Morgannwg nad oeddent yn gwneud y gweithgaredd yn Gymraeg. O'r sefydliadau nad oeddent yn gwneud y gweithgaredd yn Gymraeg, nododd pedwar eu bod yn cefnogi egwyddor Safon 81 yn yr ystyr y byddent yn ystyried ymateb i alw am gyrsiau cyfrwng Cymraeg, er nad oedd cyfeiriad at asesu'r angen. Y sefydliadau dan sylw oedd Cyngor Dinas a Sir Abertawe, Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a Chyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent. Nododd Cyngor Sir Penfro y gallai gydymffurfio â'r safon petai'n datblygu proses asesu.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl sefydliadau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 36% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau mewn perthynas â chyrsiau.²²

Wrth ymateb i'r cwestiynau ynghylch cyrsiau fel rhan o'r ymchwiliad safonau, ymddengys bod aneglurder wedi bod ymysg y sefydliadau ynghylch union ddiffiniad y safonau mewn perthynas â'r gweithgaredd hwn. Derbyniwyd tystiolaeth gan nifer o sefydliadau oedd yn cyfeirio at resymoldeb a chymesuredd darparu hyfforddiant a chyrsiau i gyflogeion yn unig.

Cadarnhaodd 6 sefydliad eu bod eisoes yn darparu cyrsiau penodol yn Gymraeg, neu'n gweithio tuag at eu cynnig yn Gymraeg. Nododd Cyngor Sir Gâr bod cyrsiau dysgu oedolion yn y gymuned ar gael i bobl dros 16 oed, gyda chyrsiau cyfrwng Cymraeg yn cael eu cynnig. Ategwyd hynny gan nodi bod y cyrsiau a hysbysebwr yn ei llyfryn yn nodi a yw'r tiwtor yn siarad Cymraeg a'i bo yn annog dysgwyr i gyfathrebu gyda'r tiwtor (os yw'n gallu siarad Cymraeg) yn eu dewis iaith. Mewn rhai cyrsiau lle mae bron pob un o'r dysgwyr yn siarad Cymraeg, cadarnhawyd y gallai iaith y ddarpariaeth neu drafodaethau fod yn Gymraeg. Noda Cyngor Sir Ceredigion fod cyrsiau addysg neu hyfforddiant yn cael eu cynnig yn Gymraeg os ydynt wedi'u hanelu'n benodol at bersonau 18 oed neu iau (e.e. gwersi nofio sy'n cael eu cynnal o fewn oriau ysgol, gweithdai theatr). Wrth gyflwyno ei dystiolaeth, nododd Cyngor Caerdydd y gellid cyflawni hyn yn rhannol drwy weithio gyda darparwyr allanol, e.e. Menter Caerdydd i gynnig cyrsiau Cymraeg ar gyfer pobl dan 18 oed yn benodol ynghyd â chynyddu gwaith partneriaeth a modiwlau e-ddysgu Cymraeg.

Ymddengys o'r dystiolaeth a dderbyniwyd bod nifer helaeth o'r sefydliadau dan sylw o'r farn y byddai'n heriol, neu'n amhosibl, mewn rhai achosion i gydymffurfio â'r gofynion ynghlwm wrth safon 79–80 (cynnig cyrsiau addysg a hyfforddiant yn Gymraeg) yn ymarferol. Nododd Cyngor Sir y Fflint y byddai'n her iddo recriwtio neu gomisiynu tiwtoriaid Cymraeg eu hiaith â sgiliau penodol i allu darparu pob cwrs addysg neu hyfforddiant. Er hynny, cydnabuwyd y gallai'r trefniadau sydd eisoes ar waith â sefydliadau cyfagos olygu y gellir mynd i'r afael â'r angen yn unol ag adnoddau a'r gyllideb. Fodd bynnag, nodwyd bod rhai meysydd penodol y mae angen sgiliau arbenigol e.e. gwasanaethau hamdden ac o'r herwydd byddai'r sefydliad yn dibynnu ar allu recriwtio hyfforddwyr Cymraeg eu hiaith neu gontractio'r gwasanaeth gan ddarparwr arall.

Nododd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf na fyddai modd iddo gydymffurfio â'r safonau hyn ar hyn o bryd. Er ei fod o'r farn na ellir cydymffurfio'n llawn ar hyn o bryd, nodwyd y gall gwaith partneriaeth a gaiff ei gyflymu, ynghyd â cheisiadau am gyllideb Ewropeaidd gynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn meysydd megis addysg i oedolion a gwasanaethau ieuencid.

Cadarnhaodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili y gellir cydymffurfio â'r safonau yn rhannol, pe bai'r sefydliad yn dod yn rhan o'r Academi Cymru gyfan ar gyfer Awdurdodau Lleol gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA) a chynghorau eraill. Nodwyd ganddynt y gobeithir y bydd yr Academi hon yn cael ei hariannu drwy gais a wnaethpwyd drwy Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru.

Mewn cysylltiad â safon 81, derbyniwyd tystiolaeth oedd yn amlygu bod asesu'r angen am gyrsiau yn arfer cyfredol mewn rhai cynlluniau iaith Gymraeg. Ategwyd hynny gan eraill a nododd nad oedd yn arfer cyfredol ond y byddai modd darparu cyrsiau Cymraeg pe bai galw amdanynt, neu yn sgil derbyn adborth gan unigolion.

Gweithgaredd 20: Systemau annerch y cyhoedd Safonau ar gyfer systemau annerch y cyhoedd [82–83]

Nododd 17 o'r 22 sefydliad (77%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd 12 o'r 17 sefydliad (71%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw yn Gymraeg. Nododd Cyngor Sir y Fflint, Cyngor Sir Fynwy, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam, Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen a Chyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot nad oeddent yn gwneud y gweithgaredd dan sylw yn Gymraeg. O'r sefydliadau nad oeddent yn gwneud y gweithgaredd yn Gymraeg, cyfeiriodd un at gydymffurfio'n rhannol â'r safonau, sef Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot. At hynny, nododd Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen fod ei gynllun iaith yn cydymffurfio â safon 82.

Wrth ddadansoddi ymrwymïadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl sefydliadau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 39% o'r ymrwymïadau'n cyfateb i'r safonau mewn perthynas â systemau annerch y cyhoedd.²³

Nododd 3 sefydliad (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, Cyngor Sir Fynwy a Chyngor Sir y Fflint) na fyddai'n rhesymol a chymesur iddynt orfod cydymffurfio â safonau ar gyfer systemau annerch y cyhoedd. Roedd y rhesymau a nodwyd yn cynnwys diffyg staff sy'n siarad Cymraeg yn rhugl a gyflogir yng nghanolfannau hamdden y sefydliad, trafferthion recriwtio siaradwyr Cymraeg wrth i sefydliad llogi gyflogi cyhoeddwr proffesiynol i wneud cyhoeddiadau sain mewn digwyddiadau proffil uchel.

Bu gwrthwynebiad gan 8 sefydliad (32%) i safon 83, sy'n gosod gofynion ar sefydliadau i wneud unrhyw negeseuon clywadwy yn Gymraeg gyntaf.

Ymddengys o'r dystiolaeth a dderbyniwyd bod aneglurder ynghylch union ddiffiniad y safonau ar gyfer systemau annerch y cyhoedd. Nododd 5 sefydliad nad oeddent yn gwneud y gweithgaredd; er hynny, wrth gyflwyno tystiolaeth bellach cadarnhawyd bod cyhoeddiadau yn cael eu gwneud, a hynny mewn perthynas â chanlyniadau etholiadol, canolfannau cyswllt cwsmeriaid, canolfannau hamdden ayb.

Gweithgaredd 21: Cronfeydd data

Safonau'n ymwneud â chronfeydd data [84–85]

Nododd 22 o'r 22 sefydliad (100%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd 15 sefydliad (68%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw yn Gymraeg. Nododd Cynghorau Sir y Fflint, Cyngor Sir Powys, Cyngor Sir Penfro, Cyngor Sir Gâr, Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen, Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot a Chyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent nad oeddent yn gwneud y gweithgaredd mewn perthynas â'r Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymïadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl sefydliadau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 64% o'r ymrwymïadau'n cyfateb i'r safonau mewn perthynas â chronfeydd data.²⁴

Derbyniwyd ymateb cadarnhaol yn gyffredinol i'r safonau'n ymwneud â chronfeydd data, gyda 21 sefydliad (95%) yn cadarnhau bod y gofynion eisoes yn arfer cyfredol, eu bod yn rhesymol a chymesur mewn egwyddor neu y byddai modd cydymffurfio â hwy dros amser. Nododd 1 sefydliad (Cyngor Sir Penfro) y byddai'n afresymol ac anghymesur iddo orfod cydymffurfio â'r safonau. Roedd y rhesymau dros hynny'n cynnwys lefel presennol y galw, ynghyd â'r ffaith ei fod o'r farn na fyddai rhai preswylwyr yn dymuno i gwestiwn ar ddewis iaith gael ei ofyn iddynt.

Er y bu ymateb cadarnhaol i'r gofynion gan fwyafrif helaeth y sefydliadau, nododd 12 sefydliad nad oeddent yn gweithredu un gronfa ddata at ddibenion cadw gwybodaeth

²³ Canran cyfartalog yr ymrwymïadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y sefydliadau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau ar gyfer pob gweithgaredd.

²⁴ Canran cyfartalog yr ymrwymïadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y sefydliadau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau ar gyfer pob gweithgaredd.

am ddewis iaith y cyhoedd. Yn hytrach, nodwyd bod cronfeydd gan wasanaethau penodol sy'n cynnwys manylion dewis iaith am eu cleientiaid hwy e.e. yr adran Trethi a Budd-daliadau, Gwasanaethau Cymdeithasol ayb.

Safonau llunio polisi [86–94]

Nododd yr holl sefydliadau bod y safonau llunio polisi, mewn egwyddor, yn arfer cyfredol a'u bod yn gweithredu'n unol â hwy, i raddau gwahanol, drwy eu cynlluniau iaith Gymraeg. Ceir ymrwymadau yng nghynlluniau iaith Gymraeg yr holl sefydliadau i asesu effaith ieithyddol bosibl unrhyw gynigion newydd sy'n cael eu cyflwyno ar gyfer cymeradwyaeth gan y sefydliad.

Ni dderbyniwyd sylwadau gan un o'r sefydliadau oedd yn amlygu unrhyw anawsterau neilltuol mewn cydymffurfio â'r safonau llunio polisi. Mewn cwestiynau a ofynnwyd fel rhan o'r ymchwiliad safonau, nododd 19 o'r 22 sefydliad (86%) eu bod o'r farn y byddai gwneud y safonau llunio polisi yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur.

Cadarnhaodd 21 o'r 22 sefydliad (95%) eu bod yn ymgynghori wrth wneud penderfyniadau polisi, gydag 1 sefydliad (5%) yn nodi nad oeddent yn gwneud ar hyn o bryd. Nodwyd yn y dystiolaeth a dderbyniwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen nad oeddent yn cydymffurfio â'r safon ar hyn o bryd e.e. dogfennau ymgynghorol drafft, gyda Chyngor Sir Ynys Môn yn cydnabod bod gwaith pellach i'w wneud i fireinio ei brosesau mewnol.

Amlygwyd yr angen gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy am eglurder pellach ar yr hyn fydd yn ofynnol o dan y safonau llunio polisi yn ymarferol, gydag eraill yn cwestiynu'r angen ar gyfer safonau 88, 91 a 94 o gwbl.

Safonau gweithredu [95–120]

Safonau ar gyfer defnyddio'r Gymraeg mewn gweinyddiaeth fewnol [95–100]

Gan ystyried safonau 95–96, nododd 7 o'r 22 sefydliad (32%) fod yr ymrwymadau hyn yn arfer cyfredol o fewn y sefydliad a'u bod yn gweithredu'n unol â'r safonau yn barod. Nododd 9 sefydliad (41%) nad oeddent yn darparu'r dogfennau fel mater o drefn, ond y byddai'r dogfennau hynny ar gael yn Gymraeg pe baent yn derbyn cais. Ymatebodd 5 sefydliad (22%) i'r adran hon gan gadarnhau eu bod yn cydymffurfio â'r safonau yn rhannol ar hyn o bryd, gan nad oedd pob dogfen/polisi a restrir yn cael eu cynhyrchu'n ddwyieithog. Derbyniwyd 1 ymateb (5%) a gadarnhaodd nad oeddent yn darparu unrhyw un o'r dogfennau/polisiau yn Gymraeg gan nodi y byddai costau sylweddol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r gofynion.

Wrth ymateb i safonau 97–100, nododd 14 o'r 22 sefydliad (64%) y byddai modd iddynt gydymffurfio â'r gofynion ar hyn o bryd. O'r 14 hynny, cadarnhaodd 4 ohonynt (Cyngor Dinas a Sir Caerdydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen) y byddai'n amhosibl sicrhau siaradwr (neu siaradwyr Cymraeg) o'u hunedau Adnoddau Dynol, yr Undebau ac ati. Gan ystyried hynny, nodwyd y byddai goblygiadau o ran adnoddau i gynnig gwasanaeth cyfieithu ar y pryd mewn cyfarfodydd mewnol o'r fath ond, o ystyried proffil y gweithlu, eu barn hwy oedd mai prin fyddai hyn yn digwydd ac felly ni fyddai'r gofynion yn arwain at unrhyw gostau ychwanegol sylweddol a rheolaidd iddynt.

Safonau ar gyfer TGCh a deunyddiau cymorth [101–104]

Wrth ymateb i'r gofynion ynghlwm wrth safonau 102–104, nododd 8 o sefydliadau (36%) eu bod naill ai'n gweithredu system fewnrwyd yn llwyr drwy gyfrwng y Gymraeg (Cyngor Gwynedd), neu fod canran o'r tudalennau neu wybodaeth ar gael yn Gymraeg i staff (Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cyngor Sir Ceredigion, Sir Ddinbych, Cyngor Sir Gâr, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, Cyngor Sir Ynys Môn). Nododd 4 sefydliad (18%) y byddai angen buddsoddiad sylweddol ynghyd ag amser staff er mwyn gallu sicrhau cydymffurfiaeth â'r gofynion.

Cadarnhaodd Cyngor Sir Ceredigion ei fod ar hyn o bryd yn gweinyddu parth Cymraeg penodol o fewn y fewnrwyd, a hynny er mwyn cefnogi staff sy'n gweithio'n ddwyieithog neu sy'n chwilio am gyngor mewn perthynas â'r iaith Gymraeg. Er hynny, cadarnhawyd bod mewnwyd y Cyngor yn cael ei aiddatblygu ac y byddai ar gael yn ddwyieithog erbyn 2015.

Nododd 10 o'r 22 sefydliad (45%) y byddai'n afresymol ac yn anghymesur i wneud y safonau'n ymwneud â'r fewnrwyd yn benodol gymwys iddynt, a hynny oherwydd yr angen i ganolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau rheng flaen, goblygiadau cost a fyddai ynghlwm wrth gynnal y gwasanaeth, ynghyd â niferoedd isel o gyflogeion sydd wedi eu hadnabod a'u cofnodi fel siaradwyr Cymraeg rhugl.

Safonau ar gyfer sgiliau'r Gymraeg – cynllunio a hyfforddi'r gweithlu [105–110]

Nododd yr holl sefydliadau bod y safonau ar gyfer cynllunio a hyfforddi'r gweithlu, mewn egwyddor, yn arfer cyfredol a'u bod yn gweithredu'n unol â hwy, i raddau gwahanol, drwy eu cynlluniau iaith Gymraeg. Derbyniwyd cadarnhad gan 19 o'r 22 sefydliad (86%) eu bod yn gweithredu strategaeth sgiliau iaith Gymraeg ar hyn o bryd. Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, Cyngor Dinas Casnewydd a Chyngor Sir Ddinbych yn unig a nododd nad oeddent yn gweithredu strategaeth sgiliau iaith Gymraeg penodol ar hyn o bryd. Er hynny, cadarnhaodd Cyngor Sir Ddinbych fod gwaith yn mynd rhagddo i asesu lefel sgiliau Cymraeg staff. Mae hyn yn digwydd drwy ofyn i staff hunan asesu eu sgiliau ieithyddol. Mae'r wybodaeth wedyn yn cael ei bwydo i system adnoddau dynol y Cyngor ac mae'r wybodaeth ar gael i reolwyr wrth iddyn nhw baratoi cynlluniau busnes yn flynyddol.

Cafwyd enghreifftiau amrywiol gan y 22 sefydliad o'r hyn a gynigir ganddynt o safbwynt hyfforddiant i'w cyflogeion. Roedd y rhain yn cynnwys cyrsiau iaith Gymraeg, cyrsiau ymwybyddiaeth iaith i gyflogeion a chynghorwyr ynghyd â chefnogi staff rheng flaen sy'n dewis dysgu neu wella eu Cymraeg drwy dalu am y cwrs o'u dewis yn ogystal â rhoi amser i ffwrdd o'r gwaith iddynt i fynychu hyfforddiant.

Nid oedd unrhyw wrthwynebiad gan y sefydliadau dan sylw i'r gofynion ynghlwm wrth safonau 105–110.

Safonau ar gyfer recriwtio [111–115]

Yn yr un modd â'r safonau ar gyfer cynllunio a hyfforddi'r gweithlu, nid oedd unrhyw wrthwynebiad i'r gofynion ynghlwm wrth safonau 111-115. Nododd yr holl sefydliadau fod y safonau ar gyfer cynllunio a hyfforddi'r gweithlu, mewn egwyddor, yn arfer cyfredol a'u bod yn gweithredu'n unol â hwy, i raddau gwahanol, drwy eu cynlluniau iaith Gymraeg. Er hynny, cadarnhawyd bod rhai elfennau o'r gofynion ynghlwm wrth safon 112 yn bethau nad oeddent yn eu gwneud yn rheolaidd ar hyn o bryd.

Safonau ar gyfer arwyddion [116–119]

Nododd 19 (86%) o sefydliadau fod arwyddion sy'n cael eu harddangos tu fewn i adeiladau'r sefydliad yn Gymraeg. Cadarnhaodd 3 sefydliad (14%), sef Cyngor Sir Bro Morgannwg, Cyngor Dinas a Sir Casnewydd, Cyngor Sir Wrecsam, nad oedd arwyddion o fewn eu hadeiladau hwy'n Gymraeg ar hyn o bryd. Mynegodd Cyngor Bro Morgannwg y byddai sicrhau cydymffurfiaeth â safonau 116-119 yn golygu cynnydd sylweddol yn y gwaith cyfieithu, ac na fyddai'n rhesymol iddo wneud oherwydd y nifer isel o gyflogeion sy'n siarad ac yn deall Cymraeg.

Er hynny, roedd Cyngor Dinas a Sir Casnewydd o'r farn ei bod hi'n rhesymol iddo gael arwyddion Cymraeg ond na fyddai'n rhesymol i osod y testun Cymraeg fel mai hwnnw sy'n cael ei ddarllen gyntaf. Rhannwyd y farn hon gan 7 sefydliad (41%) mewn cysylltiad â safon 119.

Safonau ar gyfer cyhoeddiadau a negeseuon sain [120]

Nododd 6 sefydliad (27%) eu bod o'r farn y byddai cydymffurfio â safon 120 yn afresymol. Roedd y rhesymau dros hyn yn cynnwys proffil ieithyddol eu cyflogeion a'u defnyddwyr gwasanaeth, yr angen i beidio â gwrthdaro ag arwyddion rhagnodedig cenedlaethol a ddarperir gan Lywodraeth Cymru, ynghyd â'r gallu i sicrhau nifer digonol o staff sy'n siarad Cymraeg i ddarparu cyhoeddiadau ar bob achlysur.

Safonau hybu [121–125]

Yn yr un modd â'r safonau gweithredu, nid yw rhai o'r gofynion ynghlwm wrth y safonau hybu yn ddisgwyliad cyffredin yng nghynlluniau iaith Gymraeg cyfredol y sefydliadau. Er hynny, wrth ymateb i'r cwestiynau'n ymwneud â safonau hybu yn rhan o'r ymchwiliad safonau, nodwyd sawl enghraifft o weithgareddau hybu y gwna'r sefydliadau eisoes o'u gwirfodd.

Cadarnhaodd un sefydliad (Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent) ei fod yn gweithredu strategaeth sefydliadol er mwyn hybu defnydd o'r Gymraeg yn ehangach. Er hynny, nododd 21 o'r 22 sefydliad (95%) eu bod yn hybu defnydd o'r Gymraeg yn ehangach drwy amryw o ddulliau. Roedd y rhain yn cynnwys cydweithio â'r Mentrau Iaith Lleol, Urdd Gobaith Cymru a chylchoedd Ti a Fi Lleol; cynnal awdit ieithyddol o sefyllfa'r Gymraeg o fewn cymunedau'r awdurdod; ariannu swyddog i hyrwyddo'r iaith; ynghyd â datblygu a chydlyn strategaeth iaith fel rhan o raglen waith yr awdurdod.

Er na dderbyniwyd tystiolaeth o weithgareddau hybu ehangach gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, nodwyd ganddynt y byddai modd gweithio tuag at gydymffurfio â'r safonau hyn ond ni fyddai modd cydymffurfio â'r gofynion ar unwaith.

Wrth ymateb i'r ymchwiliad safonau, cadarnhaodd Cyngor Sir Penfro nad oedd yn asesu proffil demograffig y Gymraeg o fewn y cymunedau mae'n eu gwasanaethu ar hyn o bryd, gan nad oeddynt yn credu bod galw am hyn o fewn yr awdurdod, a bod goblygiadau cost i wneud yr asesiadau hyn. Nodwyd hefyd fod angen mwy o eglurhad ar beth y disgwylir iddo eu hasesu, gan ei fod o'r farn bod geiriad y safonau braidd yn amwys, fel ag y maent.

Safonau cadw cofnodion [126–134]

Nododd yr holl sefydliadau bod y safonau cadw cofnodion, mewn egwyddor, yn arfer cyfredol a'u bod yn gweithredu'n unol â hwy, i raddau gwahanol, drwy eu cynlluniau iaith Gymraeg. Ceir ymrwymadau yng nghynlluniau iaith Gymraeg yr holl sefydliadau i ddarparu adroddiad monitro blynyddol at sylw Comisiynydd y Gymraeg, ynghyd â chadw cofnod o gwynion a dderbynnir ganddynt yn ymwneud â gweithrediad eu cynlluniau iaith.

Wrth ymateb i gwestiwn yn ymwneud â'r safonau cadw cofnodion yn rhan o'r ymchwiliad safonau, nododd 19 o'r 22 sefydliad (86%) y byddai'n rhesymol a chymesur iddynt orfod cydymffurfio â'r safonau. Mynegwyd pryder gan Gyngor Bro Morgannwg a Chyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot ynglŷn â'u gallu i gydymffurfio â safon 126.

Gan gyfeirio at safon 126, nododd Cyngor Bro Morgannwg y byddai galw am adnoddau sylweddol er mwyn cydymffurfio â'r safon hon gan nad oedd cofnodion yn cael eu cadw fel mater o drefn yng nghyswllt yr holl weithgareddau a nodwyd. Nododd Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot ei fod yn ei hystyried hi'n fwy priodol cysylltu monitro cydymffurfio â gwaith a wneir gan ei adran archwilio yn rhan o'u rôl monitro. Ategasant hynny drwy nodi nad oedd mewn sefyllfa i benderfynu ar hyn o bryd a fyddai ei weithdrefnau presennol yn ddigonol ar gyfer y gofynion ynghlwm.

Cadarnhaodd Cyngor Sir Penfro nad oes gweithdrefnau yn eu lle ar hyn o bryd i gynorthwyo â'r gwaith o gydymffurfio â'r safonau cadw cofnodion. Nododd y byddai'n rhaid i'r sefydliad ddatblygu cynllun gweithredu i gynllunio a gweithredu'r gweithdrefnau newydd, ond ei fod yn pryderu na fyddai modd gweithredu rhai o'r gofynion gan nad oes swyddog iaith dynodedig o fewn y sefydliad.

Er y cadarnhaodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a Chyngor Dinas a Sir Abertawe bod y safonau cadw cofnodion yn gyraeddadwy, roeddent o'r farn bod angen amser arnynt i ddatblygu systemau fyddai'n galluogi cydymffurfiaeth barhaus.

Nododd Cyngor Sir Ceredigion a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy y byddai modd mynd i'r afael â'r safonau cadw cofnodion pan ddaw rhagor o fanylion ynghylch y gofynion, a sut y byddai disgwyl i'r cofnodion hyn gael eu cyflwyno i Gomisiynydd y Gymraeg.

Nododd Cyngor Gwynedd ei fod yn derbyn yr angen ac yn croesawu'r her o wella trefniadau cofnodi. Er hynny, mynegwyd pryder y gallai gofynion gorfawwl arwain at ddirywiad yn y ddarpariaeth, gan orfodi iddo fonitro'r hyn sydd bellach yn gwbl sylfaenol i'w ddarpariaeth a'i ddiwylliant. Nododd ymhellach y byddai'n fwy rhesymol iddo ymgymryd â rhai elfennau cofnodi, gan fonitro ar sail methiant i ddarparu drwy gyfrwng y Gymraeg, yn hytrach na chyfrif pob cyswllt Cymraeg. Dylid nodi ei bod hi'n ofynnol i sefydliadau hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg, a hynny drwy'r holl safonau sy'n gymwysadwy iddynt. Pwysleisir bod diffiniad safonau cadw cofnodion o dan y Mesur yn ehangach na chwynion yn ymwneud â chydymffurfiaeth neu â'r Gymraeg yn gyffredinol.

5. Tystiolaeth a dderbyniwyd gan aelodau'r cyhoedd

Derbyniwyd 409 o ymatebion gan aelodau'r cyhoedd i'r ymchwiliadau safonau a gynhaliwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg. Derbyniwyd 182 o ymatebion i'r ymchwiliad safonau gan unigolion a ddewisodd gwblhau holiadur a ddarparwyd ar eu cyfer gan Gomisiynydd y Gymraeg ar y wefan. Derbyniwyd 227 ymateb pellach yn seiliedig ar dempled o ymateb safonol a gyhoeddodd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg ar ei gwefan; yn yr achos hwn roedd 225 o'r ymatebion yr un fath ac eithrio 2 ohonynt, oedd yn amrywiadau ar y gwreiddiol. Mewn 15 o achosion derbyniwyd ymateb gan unigolion ddwywaith. Digwyddodd hyn gan fod unigolion wedi ymateb drwy gyfrwng ymgynghoriad y Comisiynydd yn ogystal â chwblhau templed Cymdeithas yr Iaith Gymraeg. Mae'r Comisiynydd wedi cymryd sylw o bob ymateb a dderbyniwyd. Ceir rhestr lawn o'r ymatebwyr a oedd yn fodlon i'w hymatebion gael eu cyhoeddi yn Atodiad A.

Mae Ffigur 1 yn dangos o ble daeth yr ymatebwyr yn ôl eu grŵp a'u lleoliad daearyddol.


Ffigur 1 Nifer yr ymatebion i'r ymchwiliad safonau yn ôl lleoliad²⁵

Lleoliadau	Nifer	Canran (%)
Abertawe	7	2
Blaenau Gwent	8	2
Bro Morgannwg	8	2
Caerffili	3	1
Casnewydd	4	1
Castell-nedd Port Talbot	10	2
Ceredigion	56	14
Conwy	14	3
Caerdydd	54	13
Gwynedd	72	18
Merthyr Tudful	3	1
Pen-y-bont ar Ogwr	4	1
Powys	19	5
Rhondda Cynon Taf	15	4
Sir Benfro	2	0

(Parhad) Lleoliadau	Nifer	Canran (%)
Sir Ddinbych	17	4
Sir Fynwy	2	0
Sir Gâr	50	12
Sir y Fflint	13	3
Torfaen	14	3
Wrecsam	5	1
Ynys Môn	18	4
Tu allan i Gymru	6	4
Dim gwybodaeth	5	1
Cyfanswm	409	100

O'r 409 o ymatebion a dderbyniwyd gan aelodau'r cyhoedd, roedd 371 ohonynt yn yr iaith Gymraeg. Derbyniwyd 38 o ymatebion yn yr iaith Saesneg gan aelodau'r cyhoedd (gweler Ffigur 2 isod).

Ffigur 2 Nifer yr ymatebion i'r ymchwiliad safonau yn ôl iaith



Ymateb y cyhoedd i bwnc yr ymchwiliad safonau


Safonau Cyflenwi Gwasanaethau

Wrth geisio barn y cyhoedd ar resymoldeb a chymesuredd y gofynion sydd ynghlwm wrth y safonau cyflenwi gwasanaethau, gofynnwyd iddynt ymateb i'r cwestiwn isod yn yr holiadur:


A ydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylai'r sefydliadau dan sylw fod yn cynnal y gweithgareddau isod yn Gymraeg, er mwyn eich galluogi chi fel aelod o'r cyhoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y sefyllfaoedd dan sylw?

Wrth ateb y cwestiwn hwn, rhoddwyd cyfle i'r cyhoedd ymateb fesul gweithgaredd sydd o fewn cwmpas safonau cyflenwi gwasanaethau. Roedd y rhain yn cynnwys gweithgareddau Atodlen 9, Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, ynghyd â rhai gweithgareddau ychwanegol y lluniwyd safonau ar eu cyfer ac a gyhoeddwyd o fewn dogfen safonau arfaethedig Llywodraeth Cymru. Mae Ffigurau 3 a 4 yn dangos amrywiaeth yr ymatebion a gafwyd.

Ffigur 3 Ymateb i gwestiwn 1 yr holiadur - Safonau Cyflenwi Gwasanaethau (Gweithgareddau a ddynodir yn Atodlen 9, Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011)



Ffigur 4 Ymateb i gwestiwn 2 yr holiadur – Safonau cyflenwi gwasanaethau (Gweithgareddau ychwanegol i'r rhai a restrir yn Atodlen 9, Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011)



Safonau llunio polisi

Wrth geisio barn y cyhoedd ar resymoldeb a chymesuredd y gofynion sydd ynghlwm wrth y safonau llunio polisi, gofynnwyd iddynt ymateb i'r cwestiwn isod yn yr holiadur:

A ydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylai penderfyniadau polisi'r sefydliadau dan sylw wella'r cyfleoedd sydd i chi ddefnyddio'r Gymraeg a sicrhau gwell triniaeth i'r Gymraeg?

O'r 182 a ymatebodd drwy'r holiadur ar ein gwefan, roedd 97% (177) wedi ateb y cwestiwn hwn. O'r 177 a ymatebodd, roedd 93% (164) yn cytuno y dylai penderfyniadau polisi'r sefydliadau dan sylw ystyried effaith eu penderfyniadau polisi, gan sicrhau, neu gyfrannu at sicrhau, gwell cyfleoedd i bersonau allu defnyddio'r Gymraeg ynghyd â sicrhau gwell triniaeth i'r Gymraeg.

Dengys y ffigur isod sut yr atebodd aelodau'r cyhoedd y cwestiwn hwn:

Ffigur 5 Ymateb i gwestiwn 3 yr holiadur – Safonau llunio polisi²⁶



Safonau gweithredu


Wrth geisio barn y cyhoedd ar resymoldeb a chymesuredd y gofynion sydd ynghlwm wrth y safonau gweithredu, gofynnwyd iddynt ymateb i'r cwestiwn isod yn yr holiadur:

A ydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylai'r sefydliadau dan sylw orfod hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn unol â'r safonau gweithredu?

O'r 182 a ymatebodd drwy'r holiadur ar ein gwefan, roedd 99% (180) wedi ateb y cwestiwn hwn. O'r 180 a ymatebodd, roedd 92% (166) yn cytuno y dylai'r sefydliadau dan sylw orfod hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn unol â diffiniad safonau gweithredu yn Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Dengys y ffigur isod sut yr atebodd aelodau'r cyhoedd y cwestiwn hwn:

Ffigur 6 Ymateb i gwestiwn 4 yr holiadur – Safonau gweithredu²⁷



Safonau cadw cofnodion


Wrth geisio barn y cyhoedd ar resymoldeb y gofynion sydd ynghlwm wrth y safonau cadw cofnodion, gofynnwyd iddynt ymateb i'r cwestiwn isod yn yr holiadur:

A ydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylai'r sefydliadau dan sylw gadw cofnod yn dweud sut y mae'n cadw at safonau'r Gymraeg a chadw cofnodion am gwynion?

O'r 182 a ymatebodd drwy'r holiadur ar ein gwefan, roedd 98% (178) wedi ateb y cwestiwn hwn. O'r 178 a ymatebodd, roedd 92% (163) yn cytuno y dylai'r ddyletswydd hon gael ei gosod ar y sefydliadau dan sylw.

Dengys y ffigur isod sut yr atebodd aelodau'r cyhoedd y cwestiwn hwn:

Ffigur 7 Ymateb i gwestiwn 5 yr holiadur – Safonau cadw cofnodion²⁸



²⁷ Noder bod yr ystadegau yma'n ymwneud â'r ymatebwyr a oedd wedi ateb y cwestiwn hwn

²⁸ Noder bod yr ystadegau yma'n ymwneud â'r ymatebwyr a oedd wedi ateb y cwestiwn hwn

Safonau hybu


Wrth geisio barn y cyhoedd ar resymoldeb a chymesuredd y gofynion sydd ynghlwm wrth y safonau hybu, gofynnwyd iddynt ymateb i'r cwestiwn isod yn yr holiadur:

A ydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylai'r sefydliadau dan sylw hybu a hwyluso'r Gymraeg yn ehangach fel y nodir yn y safonau hybu?

O'r 182 a ymatebodd drwy'r holiadur ar ein gwefan, roedd 99% (180) wedi ateb y cwestiwn hwn. O'r 180 roedd 90% (162) yn cytuno y dylai'r sefydliadau orfod hybu a hwyluso'r Gymraeg yn ehangach.

Dengys y ffigur isod sut yr atebodd aelodau'r cyhoedd y cwestiwn hwn:

Ffigur 8 Ymateb i gwestiwn 6 yr holiadur – Safonau hybu²⁹




Sylwadau Pellach

Yn ogystal â darparu ymatebion i gwestiynau penodol ar bwnc yr ymchwiliad safonau, rhoddwyd cyfle i'r cyhoedd nodi unrhyw safonau ychwanegol y roeddent o'r farn y dylid eu pennu a'u gwneud yn benodol gymwys i'r sefydliadau dan sylw, ynghyd ag unrhyw sylwadau pellach oedd yn berthnasol i'r ymchwiliad safonau hwn.

O'r 182 a ymatebodd drwy'r holiadur ar ein gwefan, darparodd 34% (62) ohonynt sylwadau ychwanegol i'w hystyried gan Gomisiynydd y Gymraeg yn rhan o'r ymchwiliad safonau.

Ffigur 9 Sylwadau pellach a ddarparwyd gan aelodau'r cyhoedd



Sylwadau cyffredinol

Roedd yr ymatebion yn gefnogol ac yn croesawu'r cysyniad o ddatblygu safonau er mwyn sicrhau hawliau clir i siaradwyr Cymraeg mewn perthynas â gwasanaethau Cymraeg.

Yn yr un modd, roedd cryn awydd i sicrhau bod y safonau a bennir yn rai sy'n glir, cadarn a dealladwy i bobl gyffredin. Roedd nifer o'r sylwadau yn nodi bod angen i'r safonau a gaiff eu pennu fod yn rai uchelgeisiol ac yn rhai fyddai'n galluogi'r sefydliadau dan sylw i ddatblygu ac i gryfhau'r ddarpariaeth a geir drwy'r cynlluniau iaith presennol dros amser.

Amlinellir prif themâu'r ymatebion a dderbyniwyd a oedd o blaid isod:

- Yr angen am sicrhau nad yw unrhyw rai o'r safonau arfaethedig yn wannach na chynlluniau iaith Gymraeg y sefydliadau dan sylw
- Diffyg safonau er mwyn sicrhau bod gwasanaethau sy'n cael eu contractio allan yn cael eu darparu yn Gymraeg
- Diffyg safonau haen uwch fyddai'n sicrhau bod rhagor o gyrff yn symud tuag at weinyddu'n fewnol yn Gymraeg
- Yr angen i sicrhau y caiff y cynnig rhagweithiol ei ddefnyddio fel erfyn polisi wrth amlygu gwasanaethau i bersonau
- Sgôp cyfyngedig y safonau llunio polisi.

Derbyniwyd rhai ymatebion gan aelodau'r cyhoedd a oedd yn mynegi gwrthwynebiad cyffredinol i ddyletswyddau iaith. Nododd eraill y dylai unrhyw ddyletswyddau a osodir ar sefydliadau adlewyrchu anghenion yr ardaloedd a wasanaethir gan y sefydliadau.

Amlinellir prif themâu'r ymatebion a dderbyniwyd a oedd yn erbyn isod:

- Yr angen am sicrhau bod y polisi o osod dyletswyddau ar sefydliadau i gydymffurfio â safonau mewn perthynas â'r Gymraeg yn adlewyrchu anghenion mwyafrif o bobl Cymru
- Yr angen i ystyried yr hinsawdd economaidd bresennol, a'r modd y caiff arian cyhoeddus ei wario ar y Gymraeg
- Yr angen i osod safonau sy'n adlewyrchu'r nifer o siaradwyr Cymraeg, ynghyd â'r galw sydd am wasanaethau Cymraeg mewn ardaloedd penodol, gan ddefnyddio'r ffigyrau diweddaraf a gyhoeddwyd yng Nghyfrifiad 2011
- Yr angen i ystyried priodoldeb a rhesymoldeb gosod safon unigol a chyson ar draws sefydliadau.

6. Tystiolaeth a dderbyniwyd gan Banel Cynghori Comisiynydd y Gymraeg

Derbyniwyd tystiolaeth gan y Panel Cynghori³⁰ yn unol â'r gofynion yr amlinellir yn adran 63(3) Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Roedd yr ymatebion a dderbyniwyd gan y Panel yn dangos cefnogaeth i bwrpas y safonau arfaethedig sef gwireddu amcanion sylfaenol Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011: bod y Gymraeg yn iaith swyddogol yng Nghymru ac na ddylid ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Roedd y Panel o'r farn y dylid ystyried rhesymoldeb a chymesuredd gwneud y safonau'n benodol gymwys i'r sefydliadau perthnasol ochr yn ochr â'r cyd-destun. Roedd hynny, yn eu tyb hwy, yn cynnwys bwriad y ddeddfwriaeth a dymuniad y ddeddfwrfa o ran statws cyfreithiol y Gymraeg; maint y sefydliadau dan sylw; eu hymwneud â'r cyhoedd; a'r gwahaniaeth rhwng gosod safonau a'r amserlen ar gyfer cydymffurfio â'r safonau hynny.

Ategwyd hynny gan nodi y gellir ystyried rhesymoldeb a chymesuredd mewn un o ddwy ffordd, sef; pennu safonau gwahanol i sefydliadau mewn ardaloedd gwahanol o Gymru gan adlewyrchu natur ieithyddol yr ardaloedd perthnasol neu bennu safonau cyffredin ar draws Cymru gan ddatgan diwrnodau gosod gwahanol pryd y bydd yn ofynnol i sefydliad orfod cydymffurfio â safon(au) e.e. y gallai sefydliad lle mae angen elfen o hyfforddiant staff er mwyn cydymffurfio â safon gael rhagor o amser i gydymffurfio â safon na sefydliad lle mae adnoddau staff priodol ar gael eisoes. Roedd y Panel yn gryf o'r farn mai'r ail ddull yw'r mwyaf addas, gan ystyried bod sicrhau gwell cysondeb rhwng sefydliadau o ran darparu gwasanaethau Cymraeg yn un o brif amcanion Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Safonau cyflenwi gwasanaethau

Roedd y Panel yn gytûn y dylid gwneud safonau cyflenwi gwasanaethau sy'n ymwneud â phob un o'r gweithgareddau yn benodol gymwys i'r holl gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol yng Nghymru, gan alluogi aelodau'r cyhoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y sefyllfaoedd dan sylw.

Safonau llunio polisi

Croesawyd y safonau llunio polisi arfaethedig gan y Panel ar y cyfan. Er hynny, roedd y Panel o'r farn bod angen eglurhad pellach ar yr union ofynion sydd ynghlwm wrth y safonau llunio polisi. Nodwyd hefyd fod angen sicrwydd ai cynnal ynteu ddatblygu eu polisiâu ymhellach sy'n ofynnol i'r sefydliadau wneud, a hynny er mwyn sicrhau gwell triniaeth i'r Gymraeg.

Roedd y Panel yn gytûn y dylai penderfyniadau polisi'r holl gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol yng Nghymru wella'r cyfleoedd sydd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg a sicrhau gwell triniaeth i'r Gymraeg, ac y dylid gwneud safonau llunio polisi yn benodol gymwys iddynt.

Safonau gweithredu

Roedd y Panel yn gytûn y dylai'r holl gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol yng Nghymru orfod hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn unol â'r safonau gweithredu, ac y dylid gwneud safonau gweithredu'n benodol gymwys iddynt.

Safonau cadw cofnodion

Roedd y Panel yn gytûn y dylai'r holl gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol yng Nghymru gadw cofnod yn dweud sut y maent yn cadw at safonau penodedig eraill, a chadw cofnodion am gwynion. Daethpwyd i'r casgliad y dylid gwneud safonau cadw cofnodion yn benodol gymwys iddynt.

Safonau hybu

Roedd y Panel yn gytûn y dylai'r holl gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol yng Nghymru hybu defnydd o'r Gymraeg yn ehangach, ac y dylid gwneud safonau hybu'n benodol gymwys iddynt.

7. Casgliadau'r Ymchwiliad Safonau

Sylwadau Cyffredinol

Daethpwyd i'r casgliadau isod ar sail y dystiolaeth a dderbyniwyd gan yr holl gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol yng Nghymru, y cyhoedd a'r Panel Cynghori i bwnc yr ymchwiliad safonau, ynghyd â thystiolaeth annibynnol a gasglwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg mewn perthynas â chynlluniau iaith y sefydliadau dan sylw.

Nodir ym Memorandwm Esboniadol Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 mai un o brif amcanion y ddeddfwriaeth oedd moderneiddio ac adeiladu ar y system o gynlluniau iaith Gymraeg a grëwyd o dan Ddeddf 1993. Yn yr un modd, nodir mai nod Llywodraeth Cymru wrth ddeddfu oedd sicrhau gwell cysondeb rhwng sefydliadau, yn enwedig rhwng sefydliadau yn yr un sector, o ran darparu gwasanaethau Cymraeg.

Yn yr un modd, nodir bod adran 42 y Mesur yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i sicrhau bod rheoliadau'n darparu bod safonau cyflenwi gwasanaethau sy'n ymwneud â phob un o'r gweithgareddau a bennir yn Atodlen 9 yn benodol gymwys i sefydliad os yw'r sefydliad, ac i'r graddau y mae'r sefydliad, yn gwneud y gweithgareddau hynny.

Er hynny, dylid nodi nad oes rhaid iddynt wneud hynny os yw'r Comisiynydd yn nodi mewn adroddiad safonau, neu os yw Gweinidogion Cymru o'r farn, y byddai'n afresymol neu'n anghymesur i safonau cyflenwi gwasanaethau fod yn benodol gymwys i sefydliad mewn perthynas â'r gweithgaredd hwnnw. Dylid nodi nad yw'r adran hon yn y Mesur yn atal rheoliadau o dan adran 39 rhag darparu bod safonau cyflenwi gwasanaethau eraill yn benodol gymwys i sefydliad.

Yn unol â'r uchod, os amlygwyd drwy'r ymchwiliad safonau bod sefydliad yn gwneud y gweithgaredd³¹, boed hynny i raddau mwy neu lai, daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai'r holl safonau mewn perthynas â'r gweithgaredd hwnnw gael ei gwneud yn benodol gymwys iddo. Daethpwyd i'r casgliadau hynny gan fod y safonau a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru yn gyd ddibynnol ar ei gilydd o fewn cwmpas gweithgaredd.

Nodwn hefyd y gall y modd y cyflenwir gwasanaeth mewn perthynas â gweithgaredd newid yn y dyfodol ac y byddai angen addasu i adlewyrchu hynny drwy amrywio hysbysiad cydymffurfio, yn hytrach na mynd yn ôl at reoliadau.

Er hynny, lle ceir dystiolaeth nad yw sefydliad yn gwneud gweithgaredd o gwbl, boed hynny drwy dystiolaeth a ddaw yn rhan o'r ymchwiliad safonau, neu drwy dulliau eraill, daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad na ddylai safonau o dan y gweithgaredd hwnnw fod yn benodol gymwys iddynt.

Bydd Comisiynydd y Gymraeg yn ystyried y dystiolaeth a ddarparwyd er mwyn dod i farn ar gynnwys hysbysiadau cydymffurfio a roddir i sefydliadau o dan adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Safonau y dylid eu gwneud yn benodol gymwys i gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol yng Nghymru

Safonau cyflenwi gwasanaethau

Yn sgil cynnal yr ymchwiliad safonau hwn, ac ar sail y dystiolaeth a dderbyniwyd, daw'r Comisiynydd i'r casgliad y dylai cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol yng Nghymru allu cyflenwi gwasanaethau mewn perthynas â'r gweithgareddau a bennir yn Atodlen 9. Yn yr un modd, daethpwyd i'r casgliad y dylai cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol yng Nghymru allu cyflenwi gwasanaethau mewn perthynas â'r gweithgareddau ychwanegol i'r rhai a restrir yn Atodlen 9.

Er y cydnabyddir yr heriau a nodwyd gan gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol yng Nghymru mewn cysylltiad â nifer o weithgareddau safonau cyflenwi gwasanaethau, daw'r Comisiynydd i'r casgliad bod angen gwahaniaethu'n glir rhwng ymrwymadau sefydliad (yr hyn sy'n ddisgwylidig ohonynt) a pherfformiad (y graddau maent yn cydymffurfio â'r disgwylidau hynny ar hyn o bryd). Mae pob cynllun iaith Gymraeg yn dwyn awdurdod llawn y sefydliad wrth ddod i gytundeb ar gynnwys. Byddai peidio â phennu safonau sy'n gydradd, â'u gwneud yn benodol gymwys i'r sefydliadau dan sylw yn gam yn ôl ac yn mynd yn groes i fwriad Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Nodir bod perfformiad, ynghyd â'r graddau y gall sefydliad gydymffurfio â safon ar gyfnod penodol mewn amser yn fater ymarferol. Gall y graddau hynny wella, waethygu neu aros yr un fath. Mae Comisiynydd y Gymraeg o'r farn y dylai ymrwymadau gwrdd ag anghenion defnyddwyr y Gymraeg y maent yn eu gwasanaethu, gydag amserlen resymol wedi ei phennu ar gyfer delio ag unrhyw heriau sy'n bodoli.

Daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai Gweinidogion Cymru sicrhau bod rheoliadau yn gwneud darpariaeth i safonau cyflenwi gwasanaethau mewn perthynas â'r gweithgareddau trosodd fod yn benodol gymwys i bob un o'r cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol yng Nghymru.

- gohebiaeth
- galwadau ffôn
- llinellau cymorth a chanolfannau galwadau
- cyfarfodydd personol
- cyfarfodydd cyhoeddus
- cyhoeddusrwydd a hysbysebu
- arddangosfeydd cyhoeddus
- cyhoeddiadau
- ffurflenni
- gwefannau a gwasanaethau ar-lein
- arwyddion
- derbyn ymwelwyr
- hysbysiadau swyddogol
- dyfarnu grantiau
- dyfarnu contractau
- codi ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau Cymraeg sydd ar gael
- digwyddiadau cyhoeddus
- hunaniaeth gorfforaethol a brandio
- cyrsiau
- cronfa ddata

Mewn perthynas â systemau annerch y cyhoedd, derbyniwyd tystiolaeth gan 5 sefydliad a nododd nad oeddent yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. Er hynny, fel yr amlinellwyd yn Rhan 4 yr adroddiad, ymddengys bod aneglurder ynghylch union ddiffiniad y safonau ar gyfer systemau annerch y cyhoedd, gyda'r sawl a gadarnhaodd nad oeddent yn gwneud y gweithgaredd yn cyflwyno tystiolaeth bod cyhoeddiadau yn cael eu gwneud, a hynny mewn perthynas â chanlyniadau etholiadol, canolfannau cwsmeriaid, canolfannau hamdden ayb. Yn yr un modd, nid yw'n eglur a fyddai cyhoeddiadau a geir mewn liffitiau yn dod o dan ddiffiniad y gweithgaredd hwn. Dylai Gweinidogion Cymru sicrhau bod eglurder ynghylch union ddiffiniad y gweithgaredd hwn wrth bennu safonau.

Pe bai cyhoeddiadau fel yr uchod yn dod o fewn cwmpas y gweithgaredd, daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai Gweinidogion Cymru sicrhau bod rheoliadau yn gwneud darpariaeth i safonau cyflenwi gwasanaethau mewn perthynas â'r gweithgaredd isod fod yn benodol gymwys i bob un o'r cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol yng Nghymru.

- systemau annerch y cyhoedd

Cafwyd gwrthwynebiad i safonau oedd yn dyrchafu'r Gymraeg gan nifer o gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol yng Nghymru a hynny yng nghyswllt arwyddion gan fwyaf. Ac eithrio cost a rhesymau ymarferol, roedd nifer ohonynt yn gwrthwynebu'r egwyddor o osod y Gymraeg yn gyntaf. Nid priod swyddogaeth yr adroddiad safonau hwn yw trafod yr egwyddorion sy'n sail i'r safonau arfaethedig.

Safonau llunio polisi

Yn sgil cynnal yr ymchwiliad safonau hwn, ac ar sail y dystiolaeth a dderbyniwyd, daw'r Comisiynydd i'r casgliad y dylai penderfyniadau polisi cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol yng Nghymru wella'r cyfleoedd sydd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg a sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Rhesymau'r Comisiynydd dros ddod i'r casgliad hwnnw yw bod eisoes disgwyl i gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol yng Nghymru asesu goblygiadau ieithyddol polisïau, strategaethau a mentrau newydd yn ystod y broses o'u creu a'u hadolygu. Mae'r mesurau gofynnol sy'n sail ar gyfer cynnwys cynlluniau iaith Gymraeg i'w gweld ar ffurf canllawiau statudol a gymeradwywyd gerbron Tŷ'r Cyffredin (pasiwyd Canllawiau ar Ffurf a Chynnwys Cynlluniau Iaith gan Senedd y DU ar 19 Gorffennaf 1995). Nodir yn y canllawiau hynny y dylai sefydliadau orfod pennu'r mesurau y bwriada'r sefydliad eu cymryd pan mae'n asesu effaith polisïau, strategaethau a mentrau newydd ac yn eu gweithredu.

Daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai Gweinidogion Cymru sicrhau bod rheoliadau yn gwneud darpariaeth i safonau llunio polisi fod yn benodol gymwys i bob un o'r cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol yng Nghymru.

Safonau gweithredu

Noda adran 30 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 mai ystyr safon gweithredu yw:

safon y bwriedir iddi hybu neu hwyluso defnyddio'r Gymraeg

- (i) gan A wrth i A wneud ei weithgareddau perthnasol,
- (ii) gan A a pherson arall wrth iddynt ddelio â'i gilydd mewn cysylltiad â gweithgareddau perthnasol A, neu
- (iii) gan berson heblaw A wrth iddo wneud gweithgareddau at ddibenion gweithgareddau perthnasol A, neu mewn cysylltiad â hwy.

Mewn ymateb i'r sylwadau, aeth Comisiynydd y Gymraeg ati i gasglu tystiolaeth mewn cysylltiad ag ymrwymïadau gweinyddu mewnol cynlluniau iaith Gymraeg cyfredol, polisïau sefydliadol a datganiadau polisi.

O'r 22 sefydliad a oedd yn rhan o ymchwiliad safonau Comisiynydd y Gymraeg, cyfrifwyd nad oedd gan 7 sefydliad ymrwymïad o gwbl yn eu cynlluniau iaith. Roedd 15 sefydliad yn meddu ar ymrwymïadau. Yn ychwanegol at hynny, caed polisi sefydliadol neu ddatganiad polisi ar iaith weinyddol sefydliadau gan rai sefydliadau. Mae'n bwysig dweud nad oes unrhyw reidrwydd wedi bod ar sefydliadau i gynnwys ymrwymïad ar bolisi iaith eu gweinyddiad mewnol hyd yma. Dewis gwneud hynny y mae'r sefydliadau a dewis cynnwys ymrwymïad mewn cynllun iaith neu fel mater o bolisi yw'r arfer.

Gyda dyfodiad safonau gweithredu mae cymhelliad statudol yn cael ei amlygu yn y maes hwn a hynny am y tro cyntaf yng Nghymru. Er hyn, nid yw'r arfer yn newydd gan fod nifer o'r sefydliadau yn defnyddio'r Gymraeg fel unig neu brif iaith weinyddol. Lle na ddigwydd hynny ceir adrannau, megis adrannau addysg sy'n arfer y Gymraeg yn helaeth. Mewn rhai ardaloedd felly mae'r arfer o weithredu drwy gyfrwng y Gymraeg yn un y gellir ei rhoi ar waith. O fewn y 22 sefydliad, gellir crynhoi bod 19 o sefydliadau yn gweithredu'n adeiladol mewn cysylltiad â gweinyddu mewnol ond pwysleisir bod hynny'n digwydd i wahanol raddau. Mae'r dystiolaeth yn cwmpasu'r canlynol:

- o polisi ar iaith swyddogol y gweithle – gydag amrediad o raddfeydd polisi ynghlwm wrth hynny
- o polisi clir ar yr iaith weinyddol wrth ddelio ag ysgolion ac felly hefyd wrth ddarparu ar gyfer aelodau etholedig
- o hyfforddiant
- o y disgwyliadau ymarferol wrth i sefydliad weinyddu'n fewnol
- o polisi o hyrwyddo rhagor o gyfle i ddefnyddio'r Gymraeg
- o polisi o gynnig dewis neu i roi hawl iaith i staff (weithiau wedi ei amodi)
- o polisi codi arwyddion mewnol
- o cynlluniau i annog a chefnogi staff i ddefnyddio'r Gymraeg
- o ymrwymïadau i goleddu diwylliant cadarnhaol tuag at ddefnydd mewnol o'r Gymraeg
- o adnoddau cymorth ymarferol a chyfleuster TG sy'n cefnogi defnyddio'r Gymraeg a chynlluniau mentorau
- o dulliau monitro cynnydd ar sawl lefel
- o polisïau ar gyfer y 'cwsmer mewnol' e.e. ffurflenni adnoddau dynol
- o gwelwyd cynigion creadigol ar waith mewn cysylltiad â chynyddu defnydd;
cyhoeddwyd adroddiad yn ddiweddar gan Gyngor Sir Gaerfyrddin³² oedd yn gosod

nod o weinyddu yn bennaf drwy gyfrwng y Gymraeg iddo'i hun.

Mae datganiadau polisi Llywodraeth Cymru yn y cyswllt hwn hefyd yn gadarnhaol a thros y blynyddoedd bu i'r Llywodraeth weithredu nifer o brosiectau yn rhoi sylw i ddefnydd mewnol o'r Gymraeg, yn arbennig yn eu swyddfeydd yn Llandudno ac Aberystwyth. Yn rhan o'r argymhellion a gyflwynwyd yn Adroddiad Cymunedau Cymraeg, adroddiad a gomisiynwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth Cymru, nodwyd y dylid 'cytuno ar dargedau i ehangu gweithlu dwyieithog a gweithredu mewnol dwyieithog gydag asiantaethau perthnasol o fewn i gwmpas Safonau'r Iaith Gymraeg.'³³

Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cydnabod bod rhai elfennau ynghlwm wrth y safonau gweithredu yn newydd i'r sefydliadau dan sylw, ac felly'n anorfod byddai angen amser arnynt er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth lawn â'r gofynion. Er hynny, dylid nodi bod nifer o'r gofynion yn bethau sy'n ddisgwyliedig i sefydliadau eu gwneud o dan gynlluniau iaith Gymraeg. Mae'r rhain yn cynnwys pennu mesurau i sicrhau bod gweithleoedd sydd â chyswllt â'r cyhoedd yng Nghymru yn ceisio cael digon o siaradwyr Cymraeg sydd â'r sgiliau priodol; mesurau i glustnodi'r swyddi hynny lle ystyrir bod y gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol a'r rhai lle ystyrir ei fod yn ddymunol; ynghyd â mesurau i asesu'r angen am hyfforddiant a'i ddarparu i gyflogeion.

I'r perwyl hwn, ac ar sail y dystiolaeth a dderbyniwyd, daw'r Comisiynydd i'r casgliad ei bod hi'n rhesymol a chymesur i gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol yng Nghymru alluogi personau i wneud eu gweithgareddau perthnasol drwy gyfrwng y Gymraeg. Gyda'r elfennau hynny nad ydynt wedi eu gwreiddio yng nghynlluniau iaith Gymraeg y sefydliadau dan sylw, daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y byddai caniatáu amser digonol iddynt ymgyraedd at y nod polisi newydd hwn yn rhesymol a chymesur.

Daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai Gweinidogion Cymru sicrhau bod rheoliadau yn gwneud darpariaeth i safonau gweithredu fod yn benodol gymwys i bob un o'r cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol yng Nghymru.

Safonau cadw cofnodion

Yn sgil cynnal yr ymchwiliad safonau hwn, ac ar sail y dystiolaeth a dderbyniwyd, daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol yng Nghymru gadw cofnod yn dweud sut y mae'n cadw at safonau y disgwyilir iddynt gydymffurfio â hwy, ynghyd â chwynion. Mae'n ofynnol o dan gynlluniau iaith Gymraeg i'r sefydliadau dan sylw bennu camau sydd i'w cymryd i gyhoeddi gwybodaeth ar

berfformiad y sefydliad yn erbyn y gofynion statudol. Cadarnhawyd hynny yn y dystiolaeth a dderbyniwyd, â'r holl sefydliadau yn nodi bod y safonau cadw cofnodion, mewn egwyddor, yn arfer cyfredol.

Mae safonau cadw cofnodion yn nodi beth mae'n rhaid i sefydliad ei gadw ar ffurf cofnod o'i weithrediad mewn perthynas â safonau penodedig eraill. Nid yw'r safonau cadw cofnodion fel ag y maent yn manylu ar yr hyn sy'n rhaid ei gasglu.

Mae darpariaeth arall yn y ddeddfwriaeth yn ymwneud â threfniadau monitro a gofynion adrodd ar gyfer y gyfundrefn safonau (Adran 27 – Darpariaethau Atodol). Bydd y trefniadau a'r gofynion yma'n cael eu gosod allan mewn rheoliadau wrth iddynt fynd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'r Mesur yn nodi'r isod:

- (4) Caiff safonau a bennir o dan adran 26(1), neu reoliadau o dan adran 26(2), ymdrin, ymhlith pethau eraill, ag unrhyw un neu ragor o'r canlynol -
 - (a) llunio gan bersonau sydd o dan y ddyletswydd yn adran 25 i gydymffurfio â safonau, strategaethau neu gynlluniau'n nodi sut y maent yn bwriadu cydymffurfio â'r safonau;
 - (b) gweithdrefnau sydd i'w dilyn gan bersonau sydd o dan y ddyletswydd yn adran 25 i gydymffurfio â safonau;
 - (c) casglu gwybodaeth gan bersonau sydd o dan y ddyletswydd yn adran 25 i gydymffurfio â safonau, gan gynnwys gwybodaeth am ddefnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg mewn perthynas ag ymddygiad penodol;
 - (d) gwybodaeth y mae'n rhaid trefnu iddi fod ar gael i'r Comisiynydd;
 - (e) trefniadau monitro a gofynion cyhoeddusrwydd
 - (f) gofynion adrodd.

Yn gryno, mae adran 27 y Mesur yn amlinellu sut mae disgwyl i berson gydymffurfio â safonau.

Uwchlaw'r elfennau uchod, mae'n rhaid i'r Comisiynydd lunio Polisi Gorfodi. Mae dogfen polisi Llywodraeth Cymru, 'Arolygu, Archwilio a Rheoleiddio'³⁴, yn egluro mai rôl arolygwyr yw 'gwirio'n annibynnol gan ddefnyddio arbenigedd proffesiynol a phŵer cyfreithiol'. Caiff hynny ei ategu gan Adroddiad Crerar ar arolygu yn yr Alban sy'n nodi mai rôl arolygwyr allanol yw darparu sicrwydd annibynnol fod gwasanaethau'n cael eu rheoli'n dda ac yn addas i bwrpas. Yn ôl Crerar, pum prif egwyddor arolygu yw'r angen i ganolbwyntio ar y cyhoedd; annibyniaeth; cymesuredd; tryloywder ac atebolrwydd. Mae cynigion Crerar yn gyson ag egwyddorion Hampton sy'n nodi y dylai arolygu ddigwydd ar sail risg; na ddylid cynnal arolygon heb reswm ac y dylai rheoleiddwyr allu rhoi cyngor awdurdodol a hygyrch.

Ceir cydnabyddiaeth hefyd nad oes modd i gyrrff arolygu oruchwylio popeth y mae darparwyr gwasanaethau yn ei wneud. Hynny yw, mae disgwyliad cynyddol ar ddarparwyr gwasanaeth i gael trefniadau craffu ac archwilio mewnol cadarn. Ymhellach i hynny, mae hunan asesu yn chwarae rhan gynyddol bwysig mewn trefniadau arolygu allanol.

Daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai Gweinidogion Cymru sicrhau bod rheoliadau yn gwneud darpariaeth i safonau cadw cofnodion fod yn benodol gymwys i bob un o'r cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol yng Nghymru.

Safonau hybu

Yn sgil cynnal yr ymchwiliad safonau hwn, ac ar sail y dystiolaeth a dderbyniwyd, daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol yng Nghymru fod yn hybu defnydd o'r Gymraeg yn ehangach. Fel y nodwyd yn adran 4, cadarnhaodd 21 o sefydliadau eu bod yn hybu defnydd o'r Gymraeg yn ehangach, a hynny drwy ddulliau amrywiol. Yn yr un modd a nodwyd yng nghyswllt safonau gweithredu, daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y byddai caniatáu amser digonol i sefydliadau gydymffurfio â'r gofynion newydd hynny yn rhesymol.

Daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai Gweinidogion Cymru sicrhau bod rheoliadau yn gwneud darpariaeth i safonau hybu fod yn benodol gymwys i bob un o'r cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol yng Nghymru.

Safonau ychwanegol y dylid eu pennu a'u gwneud yn benodol gymwys i gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol yng Nghymru

Nodir yr isod yn adran 64 (3) Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011:

Os-

- (a) casgliadau'r ymchwiliad safonau (boed yn llwyr neu'n rhannol) yw y dylai safonau fod yn benodol gymwys i berson, a
- (b) nad yw unrhyw un neu ragor neu'r oll o'r safonau hynny wedi ei phennu neu eu pennu gan Weinidogion Cymru o dan adran 26(1), rhaid i'r adroddiad safonau nodi'r safonau sydd heb eu pennu.

Mae Comisiynydd y Gymraeg wedi derbyn tystiolaeth mewn perthynas â'r safonau arfaethedig (y rhai a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru ar 6 Ionawr 2014). Mae'r dystiolaeth yn dweud bod rhai safonau yn absennol neu yn dwyn sylw at safonau y dylid eu diwygio. Derbyniwyd tystiolaeth gan y cyhoedd a sefydliadau. Lle gwnaed sylwadau niferus gan sefydliad neu'r cyhoedd ar safon neilltuol fe ymchwiliwyd i ymrwymadau ac arferion cyfredol yn ogystal ag unrhyw dystiolaeth arall yr ystyriwyd yn ddilys.

Daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylid pennu safonau ychwanegol i'r rhai y cyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru ar 6 Ionawr 2014. Dylai Gweinidogion Cymru bennu'r safonau canlynol mewn perthynas â'r dosbarthiadau o safonau isod drwy reoliadau:

Safonau cyflenwi gwasanaethau

Gweithgaredd: amrediad o safonau'n ymwneud â deunyddiau gweledol e.e. cyhoeddiadau, arwyddion, hysbysiadau a ffurflenni

Mae nifer o'r safonau arfaethedig sy'n ymwneud â deunyddiau gweledol yn nodi'r meini prawf canlynol ar gyfer diffinio'r hyn a olygir wrth sicrhau nad yw'r iaith Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg:

Ffont, fformat, lliw, maint, eglurder ac amlygrwydd.

Daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylid ychwanegu 'ansawdd' ac 'amseriad' at y rhestr honno. Ar rai adegau dylid hefyd cynnwys 'pris cyhoeddiad' yn faen prawf perthnasol a hynny ar y sail y byddai peidio â gwneud hynny yn peri llithro'n ôl.

Gweithgaredd: Cyhoeddiadau

Nododd rhai sefydliadau nad oeddent yn gwneud popeth a restrwyd yn safon 43 (gweler dogfen safonau arfaethedig Llywodraeth Cymru). I'r gwrthwyneb, cafwyd pryder gan y cyhoedd bod disgwyliadau'n gostwng mewn cymhariaeth ag ymrwymadau cynlluniau iaith. Roedd safon 43 ymysg y safonau hynny y mynegwyd pryder yn eu cylch.

Er mwyn osgoi cymryd cam yn ôl daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai'r rhestr categorïau hefyd gynnwys y canlynol:

- o canllawiau
- o cardiau

- o codau gweithredu
- o cyhoeddiadau ystadegol
- o cylchlythyrau
- o dogfennau ymgynghorol
- o adroddiadau blynyddol a chyfrifon
- o mân ddeddfau ac offerynnau statudol
- o mapiau
- o papurau gwyn a phapurau gwyrdd
- o posterï
- o rheolau a rheoliadau
- o trefniadau.

Yn yr un modd ni ddylai meini prawf ar gyfer ystyried pa gyhoeddiadau eraill i'w paratoi yn Gymraeg fod yn llai na'r hyn a gynhwysir yn y canllawiau a gyhoeddwyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg ynghylch ffurf a chynnwys cynlluniau iaith Gymraeg e.e.

- o dylid cyhoeddi deunydd, a anelir at y cyhoedd yn gyffredinol yng Nghymru, yn ddwyieithog
- o dylid ystyried maint a natur y gynulleidfa, natur y ddogfen a pha mor eang y bwriedir ei dosbarthu, amseru, y galw tebygol, pwysigrwydd, gwerth am arian
- o dylid peidio â thrin y cyhoeddiad Cymraeg yn llai ffafriol na'r un Saesneg, o ran ffont, fformat, lliw, maint, eglurder, amlygrwydd, ansawdd, amseriad ac, os yn berthnasol, pris.

Mynegwyd pryderon gan rai cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol yng Nghymru ynghylch eu gallu i gynhyrchu agendâu, cofnodion a phapurau eraill ar gyfer cyfarfodydd, cynadleddau neu seminarau sy'n agored i bersonau yn syth. Nid oedd gwrthwynebiad i'r egwyddor gyffredinol ym mhob achos. Mae Comisiynydd y Gymraeg o'r farn y dylid tynnu'r elfen hon o restr safonau arfaethedig cyhoeddiadau a'u gynnwys mewn safon ar wahân. Pe byddai'n cael ei gadw yn y safon gyfredol (43) byddai risg na fyddai'r diwrnod gosod ar gyfer y safon yn ei chyfanrwydd yn caniatáu ar gyfer gwneud y cyhoeddiadau eraill ar y rhestr ynghynt na hynny.

Dylai Gweinidogion Cymru bennu safon neilltuol ar gyfer cyhoeddiadau sy'n ymwneud ag agendâu, cofnodion a phapurau eraill ar gyfer cyfarfodydd, cynadleddau neu seminarau sy'n agored i bersonau.

Gweithgaredd: Ffurflenni

Dylai Gweinidogion Cymru bennu safonau mewn perthynas â'r isod yn ychwanegol at safonau 46–49.

Rhaid i sefydliad roi'r hawl i bersonau lenwi ffurflen yn Gymraeg yn unig os mai dyna yw eu dymuniad.

Rhaid i ffurflen fod yr un mor rhwydd i'w chael mewn manau dosbarthu.

Lle cynhyrchir ffurflenni ar wahân rhaid cynnwys neges ar bob ffurflen yn dweud ei bod ar gael yn yr iaith arall.

Dylai Gweinidogion Cymru ychwanegu'r ystyriaethau canlynol wrth bennu safon 47 drwy reoliadau:

- Ffurflenni, a anelir at y cyhoedd yn gyffredinol yng Nghymru, i fod yn ddwyieithog
- Ym mhob amgylchiad arall bydd y canlynol yn berthnasol: maint a natur y gynulleidfa; natur y ffurflen a pha mor eang y bwriedir ei dosbarthu; amseru; y galw tebygol; pwysigrwydd; gwerth am arian.

Gweithgaredd: Arwyddion

Yng nghyswllt safon 57 mae'r gair 'rhesymol' wedi ei gynnwys. Mae hyn yn rhyfedd o ystyried yr ymarferiad dan sylw. Nid yw rhoi disgrisiwn o fewn safon yn dderbyniol.

Dylai Gweinidogion Cymru bennu'r safon ganlynol drwy reoliadau:

Rhaid i bob arwydd newydd, arwydd sy'n cael ei adnewyddu ac arwydd dros dro gynnwys, yn Gymraeg, y wybodaeth mae angen i'r arwydd ei chyfleu, a rhaid gosod y testun Cymraeg fel mai hwnnw sy'n cael ei ddarllen yn gyntaf.

Gweithgaredd: Cyflenwi gwasanaethau drwy drefniadau cyd-ddarparu

Ystyriodd y Comisiynydd y sylwadau a dderbyniwyd ac aed at i ymchwilio ymhellach i natur ac amrediad swyddogaethau'r sefydliadau a fu'n destun yr ymchwiliad hwn ac unrhyw dystiolaeth yr ymholwyd amdano neu a gafwyd yn rhan o'r ymchwiliad safonau.

Yn adran 7 yr holiadur ymchwiliad safonau holwyd am y modd y cyflenwir gwasanaethau ac yn benodol holwyd sefydliadau am dystiolaeth ynghylch y partneriaethau oedd yn weithredol ganddynt. Roedd y partneriaethau a enwyd yn niferus ac yn cyfeirio at

wasanaethau megis y gwasanaeth cymorth integredig i deuluoedd, sy'n darparu gwasanaethau arbenigol i deuluoedd ag anghenion cymhleth neu wasanaeth megis rhai arbenigol i blant (i gynnig dwy enghraifft yn unig). Gallodd un sefydliad restru 59 o bartneriaethau a rhestrwyd degau ar ddegau o drefniadau darparu gwasanaeth ar y cyd gan y sefydliadau eraill.

Mae'r dystiolaeth a gafwyd yn dangos bod cyd gynllunio gwasanaethau'n digwydd yn strategol a gweithredol a'i fod yn arfer disgwylidig mewn rhai meysydd yn arbennig e.e. maes plant a phobl ifanc; gofal, iechyd a lles; addysg; yr economi; diogelwch cymunedol a'r amgylchedd. Gwerth yw nodi'r sylw canlynol sy'n codi o Gomisiwn³⁵ diweddar Syr Paul Williams bod:

angen i ddinasyddion gael eglurder ynghylch sut y caiff cyfrifoldebau eu dosbarthu rhwng sefydliadau gwahanol er mwyn iddynt ddeall eu hawliau i wasanaethau a sut i fanteisio arnynt. Mae ganddynt hefyd hawl i ddisgwyl gwasanaethau di-dor a chydgyssylltiedig sydd, gyda'i gilydd, yn diwallu eu hanghenion, heb orfod negodi neu drefnu darpariaeth o'r fath ar wahân eu hunain.

Adroddwyd bod cynllunio gwasanaeth ar draws ffiniau swyddogaethol cymhleth yn gallu arwain at wasanaethau gwael. Mae risg felly i wasanaeth yn Gymraeg oni bai y ceir safonau neilltuol yn eu lle yn gosod dyletswydd ar sefydliadau i weithredu proses effeithiol wrth gyd lafurio.

Nid yw'r safonau mewn perthynas â gweithgareddau atodlen 9, Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 na'r gweithgareddau ychwanegol yn gosod unrhyw ddyletswydd i ystyried y Gymraeg wrth gyd gynllunio gwasanaethau traws ffiniol. Nid yw'r safonau llunio polisi yn caniatáu mynd i'r afael â hynny i'r graddau y byddai rhywun yn ei ddisgwyl ac yn benodol nid yw'n mynd i'r afael ag atebolrwydd.

Dylid pennu safon(au) sy'n rhoi disgwylid ar bersonau i gynllunio gwasanaethau o fewn y cyd-destunau cymhleth presennol ac yn peri bod yr atebolrwydd yn hollol glir ar bob achlysur. Bydd angen i Weinidogion Cymru sicrhau eglurder ynghylch y disgwylidau mewn sefyllfa lle bo un sefydliad o dan ddyletswydd i weithredu safonau ond nad yw hynny'n wir i eraill.

Cafwyd dystiolaeth gan gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol mewn ateb i gwestiwn yn yr holiadur a ddarparwyd iddynt oedd yn cadarnhau eu bod i gyd yn cyd-ddarparu. Mae cynlluniau iaith Gymraeg yn cynnwys ymrwymadau i ystyried y Gymraeg mewn partneriaethau.

Dylai Gweinidogion Cymru bennu safon(au) sy'n gosod dyletswydd ar sefydliad i bennu'r camau y cymerir i gyflwyno gwasanaethau drwy'r Gymraeg pan fo'r gwasanaethau hynny'n cael eu cyflenwi drwy drefniadau cyd ddarparu. Dylai Gweinidogion Cymru egluro beth fydd y trefniadau lle caiff safonau eu gosod ar un person o fewn partneriaeth

traws sefydliadol ond na fydd y personau i gyd yn ddarostyngedig i'r safonau hynny e.e. safonau hybu.

Dylai Gweinidogion Cymru bennu'r safonau canlynol drwy reoliadau:

Rhaid i sefydliad gynllunio i gyflenwi'r holl wasanaethau y mae'n atebol drostynt fel eu bod, pan yn weithredol, yn gyson â'r safonau y mae'n ofynnol iddynt gydymffurfio â hwy.

Pan fo sefydliad yn arwain partneriaeth neu'n rhan o drefniant arall, boed strategol neu ariannol, bydd yn sicrhau bod ei ymddygiad ieithyddol yn gyson â'r safonau y mae'n ofynnol iddynt gydymffurfio â hwy..

Pan fo sefydliad yn ymuno â phartneriaeth neu drefniant arall y mae corff arall yn ei arwain, bydd mewnbwn y sefydliad i'r bartneriaeth neu'r trefniant yn cydymffurfio â'r safonau y mae'n ofynnol iddynt gydymffurfio â hwy, a bydd yn annog y partïon eraill i gydymffurfio.

Pan fo sefydliad yn ymuno â neu'n ffurfio partneriaeth neu drefniant o unrhyw fath, bydd yn gofyn i'r darpar bartneriaid am y safonau y mae'n ofynnol iddynt gydymffurfio â hwy, ac yn sicrhau y byddant yn gweithredu yn unol â'r gofynion uchaf.

Wrth gychwyn unrhyw drefniadau cydweithio, rhaid i sefydliad gynnal asesiad o drefniadau cydweithio a chynllunio gwasanaeth er mwyn adnabod a chytuno ar gamau sydd i'w cymryd er mwyn sicrhau nad yw'r cydweithio ynddo'i hun yn arwain at ostyngiad yn natur y gwasanaeth Cymraeg y gall personau ddisgwyl ei dderbyn.

Gweithgaredd: Cyfarfodydd personol

Mae tystiolaeth gan y cyhoedd yn mynegi pryder bod y safonau arfaethedig yn gyfyng i'r graddau eu bod yn ymwneud yn unig ag elfennau gweinyddol gweithgaredd ar draul agweddau ansoddol.

Yng nghyswllt cyfarfodydd personol dylai Gweinidogion Cymru bennu safon sy'n cydnabod amgylchiadau lle nad oes modd cynnal cyfarfod personol ag unigolyn ac eithrio yn iaith yr unigolyn hwnnw. Dylai'r safon nodi bod yn rhaid cynllunio i ddiwallu anghenion yr unigolyn yn ddi-oed. Ystyr amgylchiadau fyddai rhai lle nad yw cyfryngwr na defnyddio cyfieithu yn briodol nac yn foesol gan y byddai hynny'n effeithio'n andwyol ar lesiant yr unigolyn.

Dylai Gweinidogion Cymru bennu'r safon ganlynol drwy reoliadau:

Wrth gynllunio i gyflenwi gwasanaethau i bersonau, rhaid i'r cynllun gael ei gyflenwi yn gyfan gwbl drwy'r Gymraeg, heb gyfryngwr, mewn amgylchiadau lle byddai peidio â gwneud hynny'n effeithio'n andwyol ar lesiant person.

Gweithgaredd: Cyfarfodydd (personol, cyhoeddus a digwyddiadau cyhoeddus) – materion cyffredinol

Dylai Gweinidogion Cymru bennu'r safon ganlynol drwy reoliadau:

Rhaid i'r sefydliad gyfarch a chroesawu mynychwyr i gyfarfodydd ar lafar yn Gymraeg.

Gweithgaredd: Cyrsiau

Cafwyd tystiolaeth gan sefydliadau yn codi amheuon ynghylch diffiniad y safon dan sylw. O blith y cyhoedd cafwyd tystiolaeth oedd yn pwysleisio pwysigrwydd cynnal gweithgareddau a chyfleoedd cymdeithasol i bobl ifanc gymdeithasu yn y Gymraeg.

Byddai Comisiynydd y Gymraeg yn dymuno gwybod i ba raddau mae'r safonau arfaethedig ar gyfer cyrsiau yn cynnwys gweithgareddau cymdeithasol, ac yn benodol clybiau ieuencid, o fewn cwmpas y safon arfaethedig. Os nad yw wedi ei gynnwys o fewn cwmpas y safon, daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai Gweinidogion Cymru bennu safon ychwanegol ar gyfer gweithgareddau cymdeithasol. Dylai safon o'r fath sicrhau bod dyletswydd ar sefydliad i asesu'r angen am gyflenwi gweithgareddau cymdeithasol yn Gymraeg ac i ddiwallu'r angen hwnnw yn ôl yr angen.

Gweithgaredd: Cyhoeddusrwydd a hysbysebu – dulliau ymateb

Dylai Gweinidogion Cymru bennu safon sy'n ymwneud â dulliau ymateb ar gyfer ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd drwy reoliadau ar y sail y byddai peidio â gwneud hynny yn peri llithro'n ôl:

Dulliau ymateb ar gyfer ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd sy'n sicrhau bod modd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg.

Gweithgaredd: Cyhoedduswydd a hysbysebu – arolygon cyhoeddus

Dylai Gweinidogion Cymru bennu safon sy'n ymwneud ag arolygon cyhoeddus yng Nghymru drwy reoliadau ar y sail y byddai peidio â gwneud hynny yn peri llithro'n ôl:

Cynnal arolygon cyhoeddus yng Nghymru yn Gymraeg.

Gweithgaredd: Dyfarnu contractau

Er mwyn amlygu'r ddyletswydd sydd ymhlyg ym Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 dylai Gweinidogion Cymru bennu'r safon canlynol mewn perthynas â dyfarnu contractau:

Er mwyn i asiant neu gontractwr weithredu a chyflenwi gwasanaethau Cymraeg i'r cyhoedd ar ei ran ac o dan ei oruchwyliaeth, rhaid i sefydliad sicrhau bod y gofynion sydd arno i gydymffurfio â safonau perthnasol yn cael eu nodi wrth wneud trefniadau contractio a bod gofynion gweithredol y contract yr un fath â'r gofynion sydd ar y sefydliad i gydymffurfio â safonau perthnasol, i'r graddau eu bod yn gymwys i'r contract dan sylw.

Gweithgaredd: Codi ymwybyddiaeth o wasanaethau Cymraeg sydd ar gael

Dylid pennu'r gofynion canlynol ynghlwm wrth safonau 74–76 gan y byddai hynny'n cryfhau'r cysyniad o gynnig rhagweithiol. Daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai'r safonau dan sylw gael eu diwygio ar sail y dystiolaeth a dderbyniwyd gan y cyhoedd. Roedd y dystiolaeth yn pwysu am wasanaethau Cymraeg a gynigiwyd yn rhagweithiol. Mae rhai o'r pwyntiau a nodir islaw yn faterion sy'n seiliedig ar gynnwys cynlluniau iaith Gymraeg neu'r ddyletswydd yn adran 12, Deddf yr Iaith Gymraeg 1993.

Rhaid i'r sefydliad:

- o ddatgan ym mha ffurf y bydd yn rhoi cyhoedduswydd i'r gwasanaethau Cymraeg a gyflenwir ganddo
- o ddatgan yn gyhoeddus beth yw'r trefniadau ar gyfer goruchwyllo, annog, galluogi, hwyluso neu gefnogi defnyddio'r gwasanaethau Cymraeg a gynigir
- o wneud addewid cyhoeddus y bydd yn cyflwyno gwasanaeth yr un mor safonol yn yr iaith Gymraeg ag yn yr iaith Saesneg
- o amlygu'r weithdrefn gwyno mewn cysylltiad â safonau'r Gymraeg a rhoi enw'r sawl y

gellir cysylltu â hwy

- o ddisgrifio pa gamau y bydd y sefydliad yn eu cymryd i geisio adborth am brofiadau gwasanaeth cyfrwng y Gymraeg
- o ei gwneud yn glir i bersonau, drwy ddulliau ysgrifenedig ac ar lafar, bod gwasanaeth Cymraeg ar gael ac mai'r darparwr sy'n gyfrifol am gynnig dewis iaith bob tro y daw personau i gyswllt â'r sefydliad.

Safonau gweithredu

Yn ychwanegol at yr hyn sydd ganddynt yn y safonau arfaethedig dylai Gweinidogion Cymru bennu safonau gweithredu sy'n cwmpasu ac yn adlewyrchu'r cyd-destun ieithyddol a geir o fewn yr holl gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol yng Nghymru, gan sicrhau nad oes lleihad mewn buddiant i ddefnyddwyr y Gymraeg wrth symud oddi wrth gynlluniau iaith i safonau. Dylai Gweinidogion Cymru roi sylw i'r materion isod gyda golwg ar bennu safonau. Mae'r materion isod yn adlewyrchu amrediad y dystiolaeth a gasglwyd wrth wirio cynnwys cynlluniau iaith Gymraeg.

- o gweinyddiad mewnol: polisi iaith swyddogol y gweithle – gydag amrediad o raddfeydd polisi ynghlwm wrth hynny e.e. Cymraeg yn unig, Cymraeg fel prif iaith, y ddwy iaith yn ieithoedd swyddogol;
- o ymrwymïadau iaith wrth ddelio ag ysgolion;
- o polisi ar gyfrwng iaith wrth ymwneud ag aelodau etholedig gan gyflenwi a gweinyddu yn unol â dewis iaith yr aelod
- o hyfforddiant galwedigaethol yn unol â pholisi iaith y sefydliad
- o canllawiau yn nodi'r disgwyliadau gweithredol ac ymarferol wrth i sefydliad weinyddu'n fewnol (o ran iaith); cynllun a thargedau er mwyn hyrwyddo cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg wrth y gwaith;
- o cynlluniau i annog a chefnogi staff i ddefnyddio'r Gymraeg ac i goleddu diwylliant cadarnhaol tuag at ddefnydd mewnol o'r Gymraeg.

Dylai Gweinidogion Cymru bennu'r safon ganlynol drwy reoliadau:

Rhaid i'r sefydliad gynnwys parth Cymraeg ar y fewnrwyd sy'n cynnig deunyddiau cymorth i hwyluso a chefnogi defnyddio'r Gymraeg.

Safonau hybu

Daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai safon hybu rhif 124, sy'n rhoi dyletswydd ar sefydliad i baratoi a chyhoeddi strategaeth hefyd osod dyletswydd arnynt i

gyplysu'r strategaeth honno â chynlluniau strategol a chorfforaethol y sefydliad.

Daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad fod yn rhaid i strategaeth hybu'r awdurdodau roi sylw i'r meysydd canlynol (heb gyfyngiad) gan fod y themâu hyn wedi eu cynnwys mewn strategaeth genedlaethol statudol:³⁶

- o trosglwyddo iaith o fewn teuluoedd;
- o plant a phobl ifanc;
- o addysg a sgiliau;
- o hybu'r Gymraeg o fewn cymunedau;
- o gweithio gyda sectorau neu gyrff eraill;
- o seilwaith ac ymchwil.

Safonau cadw cofnodion

Yng nghyswllt safon 126, daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylid pennu'r safon honno ar ffurf sy'n gyson â'r safonau cadw cofnodion eraill. Gan ystyried y gall Gweinidogion Cymru bennu safonau mewn perthynas â gweithgareddau ychwanegol, dylid osgoi cynnwys rhestr o'r math hwn. Mae'r safon, fel y'i cyflwynwyd yn nogfen Llywodraeth Cymru, wedi hepgor digwyddiadau cyhoeddus o'r rhestr.

Yn unol ag adran 44 y Mesur, hysbysiad cydymffurfio yw hysbysiad a roddir i sefydliad gan y Comisiynydd sy'n ei gwneud hi'n ofynnol iddynt gydymffurfio â safon neu â'r safonau. Nid oes rheidrwydd y bydd hi'n ofynnol i sefydliad gydymffurfio â phob safon a wnaethpwyd yn benodol gymwys iddo mewn rheoliadau. Gan ystyried hynny, dylai Gweinidogion Cymru addasu geiriad y safonau cadw cofnodion er mwyn adlewyrchu'r ffaith mai hysbysiad cydymffurfio yw'r teclyn sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i sefydliad gydymffurfio â safon neu â'r safonau.

Dylai Gweinidogion Cymru bennu safonau cadw cofnodion mewn perthynas â'r isod drwy reoliadau:

- o Cofnod yn dangos bod y dyletswyddau i gydymffurfio â safonau sydd mewn grym a'r trefniadau cysylltiedig i'w gweithredu wedi eu nodi ar lefel uchaf y sefydliad a'u bod yn dwyn awdurdod llawn y sefydliad wrth eu gweithredu
- o Cofnod o'r rhai hynny sy'n ysgwyddo'r cyfrifoldeb am gydlyn holl agweddau gweithredol cydymffurfiaeth y sefydliad gyda safonau
- o Cofnod o gymwysterau cyfieithwyr sy'n gwneud gwaith ar ran y sefydliad.

8. Y camau nesaf

Wrth ddarparu'r adroddiad safonau hwn mae Comisiynydd y Gymraeg wedi ystyried yr holl ymatebion a gyflwynwyd i'r ymchwiliad safonau. Caiff yr adroddiad hwn ei gyflwyno i'r isod yn unol ag adran 64 (4) Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011:

- o pob person perthnasol
- o Panel Cynghori Comisiynydd y Gymraeg
- o pob person a gymerodd rhan yn ymgynghoriad y Comisiynydd yn unol ag adran 63;
- o Gweinidogion Cymru.

Ochr yn ochr ag ymchwiliadau safonau Comisiynydd y Gymraeg, disgwylir i Weinidogion Cymru gynnal asesiadau effaith rheoleiddiol mewn perthynas ag is-ddeddfwriaeth berthnasol y maent yn bwriadu ei gwneud, gan ddefnyddio eu pwerau is-ddeddfwriaethol eu hunain.

Noda Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 mai Asesiad Effaith Rheoleiddiol yw'r isod:

A regulatory impact assessment is an assessment as to the likely costs and benefits of complying with relevant Welsh subordinate legislation.³⁷

Yn hyn o beth, gall Asesiad Effaith Rheoleiddiol gael ei ystyried:

- o yn broses i helpu Gweinidogion Cymru ystyried effaith y rheoliad arfaethedig ar fuddiannau unigolion, grwpiau, sefydliadau ac ati
- o yn gyfrwng i alluogi Gweinidogion Cymru i bwysu a mesur costau a manteision yr holl opsiynau sydd ar gael iddynt cyn gweithredu polisi; ac
- o yn fodd o gyflwyno'r dystiolaeth berthnasol ar effeithiau cadarnhaol a negyddol ymyriadau o'r fath at ddibenion craffu ar y dystiolaeth honno.³⁸

Bydd disgwyl i Weinidogion Cymru ystyried y dystiolaeth a gasglwyd ganddynt at ddibenion yr asesiad effaith rheoleiddiol, ochr yn ochr â chasgliadau Comisiynydd y Gymraeg mewn adroddiad safonau wrth benderfynu a ddylent arfer y pwerau sydd wedi eu rhoi iddynt o dan Ran 4 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ai peidio.

Cadarnhaodd Y Gwir Anrh Carwyn Jones AC, Prif Weinidog Cymru mewn datganiad ysgrifenedig ar 21 Hydref 2013 y rhagwelir ar hyn o bryd y daw'r rheoliadau i rym fis Tachwedd 2014, a hynny wedi dadl a phleidlais ar gymeradwyo'r rheoliadau yng Nghyfarfod Llawn y Cynulliad Cenedlaethol.

Atodiad A – Rhestr o'r ymatebwyr i'r ymchwiliad safonau

Isod ceir rhestr o'r person(au) perthnasol y cynhaliwyd ymchwiliad safonau mewn perthynas â hwy, y Panel Cynghori ynghyd ag aelodau'r cyhoedd a oedd yn fodlon inni gyhoeddi eu sylwadau.

Personau perthnasol

Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Cyngor Caerdydd
Cyngor Sir Gaerfyrddin
Cyngor Sir Ceredigion
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Cyngor Sir Ddinbych
Cyngor Sir y Fflint
Cyngor Gwynedd
Cyngor Sir Ynys Môn
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
Cyngor Sir Fynwy
Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
Cyngor Dinas Casnewydd
Cyngor Sir Penfro
Cyngor Sir Powys
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Cyngor Dinas a Sir Abertawe
Cyngor Sir Bro Morgannwg
Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Aelodau'r cyhoedd

Enfys Jones
Amelia Davies
Delyth Hughes
Harri Bryn Jones

Elan Grug Muse
Huw Thomas
Rhodri Jones
T Roberts
William Lewis
Thomas Howard Thomas
Menna Jones
Bethan Jones
Wyn Hobson
Elwyn Vaughan
Nia Besley
Nic Daniels
Tryfan Williams
Jina Gwyrfai
Geraint Jones
Clive James
Sioned Williams
Allan Wynne Jones
Iago ap Steffan
Marc Jones
Liza Jones
Gareth Thomas
Michael Bacigalupo
Lloyd Evans
Glenn Wall
Shon Wyn Hughes
Gaynor Hughes
Mathew Rees
Ffion Hughes
Robert Williams
Jacques Protic
Ellen Andrew
Ivoreen Williams
Gwyneth Owen
Dewi Rhys-Jones
Mr K Jones
Steve Evans
Yvonne Balakrishnan
Siwan Hywel
Ben Screen

Mared Ifan
Leighton Adams
Kathryn Tovey
Kelly Young
Michael Weedall
Beverley Lucas
Rhian Davies
Alun Pugh
Ffion Rhisiart
Lowri Jones
Ann Joyner
Ffion Rees
Bethan Shone
Carys Tudor
Huw Roberts
Frances Jones
Sarah Gwilym
Hari Powell
Linda James
Nia Wyn Jones
Einir Sion
Catrin Reynolds
Sioned Thomas
Neil Wyn Jones
Alun Thomas
Angela Marshall
Gwyn Morgan
Gwenda Roberts
Heledd Williams
Dewi Snelson
Mari Fflur
Rhidian Evans
Bethan Lewis
Iorwen Jones
Andrew Hawke
Gill Stephen
P Denning
Trefor Jones-Morris
Bryn Davies
William Schleising

Ifor Gruffydd
Julia Owens
Osian Rhys
Rhianon Hywel Jones
Ellen Roberts
Mererid Haf Roberts
Aaron
Manon Prysor Huws
Sian Howys
Sean Driscoll
Elwyn Hughes
Gwawr Davalan
Anthony Barry
Gareth Popkins
Edward Thomas
Mari Wynne Jones
Gareth Dobson
Paul Owen
Amanda Jaine Evans
Teresa Davies
Elin Wyn
Adam Jones
Powys Thomas
Angharad Rhys
Iago John
Mark A. Strong
Alan Baker
Parch. Emyr Wyn Thomas
Lydia Jones
Gregory Snelgrove
Dafydd Trystan
Hywel Wyn Jones
Alfred S Nathan
Eirian Conlon
Eryl Jones
Rhys Stephen

Sefydliadau/Mudiadau

Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru
Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru
Dyfodol Defnyddwyr
Cymdeithas yr Iaith Gymraeg
Dyfodol i'r Iaith
Menter Iaith Maelor
Menter Iaith Maldwyn
Menter Iaith Sir y Fflint
Mentrau Iaith Cymru
Merched y Wawr
Mudiadau Dathlu'r Gymraeg
Grŵp Cynulliad Plaid Cymru
Prifysgol Bangor

Panel Cyngori Comisiynydd y Gymraeg

Dr Ian Rees
Gareth Jones
Yr Athro Gwynedd Parry